14.08.2018

Margot James AS/MP
Y Gweinidog dros Faterion Digidol a'r Diwydiannau Creadigol/
Minister for Digital and the Creative Industries
DCMS
100 Parliament St
Westminster
London
SW1A 2BQ

Annwyl Margot

Mae'n bleser gennym amgáu cynllun gweithredu S4C sy'n ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad o S4C, a hefyd ymateb y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn gynharach eleni.

Rydym yn hyderus y bydd ein cynlluniau ar gyfer gweithredu argymhellion yr Adolygiad yn golygu y bydd S4C yn parhau â rhan ganolog ac unigryw i'w chwarae i sicrhau lle blaenllaw a llwyddiant i'r Gymraeg yng nghyfryngau torfol y dyfodol.

Rydym yn falch o nodi ein bod eisoes wedi gwneud cynnydd nodedig o ran gweithredu llawer o'r argymhellion. Mewn meysydd yn ymwneud â darparu ein gwasanaeth, rydym eisoes wedi rhoi nifer o strategaethau a mentrau newydd ar waith i sicrhau y gallwn gyflwyno'r math o wasanaethau digidol sydd mewn golwg gan yr adolygiad. Mewn meysydd lle mae angen i S4C gydweithredu â phartneriaid, gan gynnwys yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Ofcom, rydym wedi cynnal trafodaethau adeiladol yn barod gyda'r bwriad o roi nifer o'r argymhellion ar waith.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi a'ch swyddogion, i drafod ein cynllun gweithredu ac i gyflawni'r materion a amlinellir yn ein cynllun.

Yn gywir

Huw Jones
**Cadeirydd**

Owen Evans
**Prif Weithredwr**

Amg

Parc Tŷ Glas Llanisien Llanishen Caerdydd Cardiff Cymru Wales CF14 5DU
Ffôn Phone +44(0)29 2074 7444 Ebost Email s4c@s4c.cymru Gwefan Website s4c.cymru
Awdurdod S4C The Welsh Fourth Channel Authority

**'Adeiladu S4C i'r dyfodol' - ymateb a chynllun gweithredu S4C**
Awst 2018

## Cyflwyniad

## S4C a'r Adolygiad

Dechreuodd S4C ddarlledu am 18:00 ddydd Llun 1 Tachwedd 1982. Ar y cychwyn, roedd 22 o oriau o raglenni Cymraeg yn cael eu darlledu bob wythnos. Heddiw, mae S4C yn darlledu dros 115 o oriau o raglenni bob wythnos, 1700 o oriau o raglenni Cymraeg newydd bob blwyddyn, gyda'r rhan fwyaf o'r rhain ar gael i'w gwylio ar-lein am y 30 diwrnod dilynol. Mae S4C yn comisiynu cynnwys o 55 o gwmnïau annibynnol gwahanol, ac mae'n cynhyrchu gweithgarwch economaidd gwerth £170m y flwyddyn. S4C yw'r unig wasanaeth teledu Cymraeg sydd ar gael, boed yn wasanaeth am ddim neu'n wasanaeth masnachol.

Mae'r Adolygiad felly yn llygad ei le i bwysleisio pwysigrwydd canolog S4C i fywyd Cymru a'r Gymraeg.

Yn dilyn blwyddyn pan gyflawnodd y gwasanaeth dwf sylweddol o ran ei gyrhaeddiad, diolch yn bennaf i raglenni chwaraeon, drama ac adloniant o ansawdd uchel, mae cyhoeddi'r Adolygiad annibynnol yn arwydd amserol i ni edrych yn hyderus i'r dyfodol. Rydym yn ddiolchgar iawn i Euryn Ogwen Williams am ddwyn y gwaith hwn yn ei flaen, a chroesawn ymateb cydamserol y Llywodraeth. Mae hyn yn gwneud y llwybr o'n blaenau yn fwy eglur, ac yn cyflymu'r broses o newid a symud ymlaen. Rydym yn benderfynol o ddefnyddio hyn fel sylfaen i gyflawni hyd yn oed mwy ar gyfer ein gwylwyr, yn enwedig yn ddigidol. Yn benodol, croesawn yr ymrwymiad cryf a wnaed gan Lywodraeth y DU i gefnogi ac ymgorffori statws S4C fel Darlledwr annibynnol.

## Cylch gwaith

Nid yw'r cyfeiriad digidol a ddisgrifiwyd yn yr adolygiad yn newydd i ni. Rydym wedi dangos y cyfeiriad y mae angen i S4C fynd iddo, ac wedi cymryd camau pwysig ar hyd y llwybr hwnnw, wrth gyflwyno ein gwasanaethau ar-lein *Hansh* (i bobl ifanc) a *Cyw Tiwb* (i blant bach). Ond roedd yn bwysig iawn derbyn cadarnhad o gefnogaeth i'r angen i S4C ymgymryd â rôl darparwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg cyflawn. Mae'r Adolygiad yn darparu hyn, felly hefyd ymrwymiad gan y Llywodraeth y bydd ein cylch gwaith statudol yn newid maes o law. Nid ar chwarae bach y mae unrhyw sefydliad yn gwario'r arian cyhoeddus a dderbynia at ddibenion nad ydynt wedi'u nodi'n glir yn y dogfennau sy'n pennu ei bwrpas. O safbwynt rheoleidd-dra yn unig, mae'r addewid o gylch gwaith newydd – gyda phwyslais ar ddatblygiad digidol a chynulleidfa eang – yn hanfodol ac yn bwysig iawn.

Nid ydym yn bwriadu aros am ddeddfwriaeth cyn cymryd camau pendant. Mae'r byd digidol yn cael effaith ddramatig ar arferion gwylio cynulleidfaoedd, yn enwedig yr ifanc. Gallant wylio mwy o'r hyn maent ei eisiau, pan fyddant eisiau, a derbyn argymhellion gwylio personol ynglŷn â thestunau sydd o ddiddordeb arbennig iddynt. Mae'n rhaid i gynnwys Cymraeg ganfod ei ffordd yn gyflym at y dyfeisiau digidol a ddefnyddir fwyaf. Yn gynyddol, mae angen i'r cyfryw gynnwys gael ei greu i'w wylio'n ddigidol yn benodol.

**Strategaeth ddigidol**

Mae technoleg yn ein hannog ni fel darlledwyr i gyfathrebu a rhyngweithio â'n cynulleidfaoedd ar sail un-i-un yn hytrach nag un-i-lawer. Mae datblygu'r modd a fydd yn ein galluogi i bersonoleiddio ein gwasanaethau i'r perwyl hwn yn elfen allweddol o'r strategaeth ddigidol a ddisgrifir yn y cynllun gweithredu hwn.

Rydym wedi cyhoeddi ein bwriad i wario £3 miliwn dros y tair blynedd nesaf ar y strategaeth ddigidol newydd hon yn benodol – yn ychwanegol at yr hyn sy'n cael ei wario ar hyn o bryd, ac yn ychwanegol at y defnydd o gynnwys sy'n briodol ar gyfer pob llwyfan. Swm uwch, fel canran o'n hincwm, na hynny sy'n cael ei wario gan Channel 4, er enghraifft.

Bydd personoleiddio yn un agwedd ar yr her o sicrhau bod gwylwyr, mewn byd cyfryngau sy'n un darniog, yn gwybod am y cynnwys Cymraeg sydd ar gael iddynt. Yn y cyd-destun hwn, roeddem yn siomedig na wnaeth yr Adolygiad gyfeirio'n gryfach at bwysigrwydd sicrhau lle amlwg i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau digidol. Ystyriwn bob siaradwr Cymraeg, pa mor rhugl bynnag ydyw a pha mor gyfarwydd bynnag ydyw â'r iaith, fel ein darpar wylwyr, ac mae'n amlwg nad yw dewis cyfrwng llawer o bobl yn cael ei reoli gan y cyfrwng ieithyddol, ond yn hytrach gan ymwybyddiaeth o gynnwys deniadol.

Mae'r lle amlwg a roddir i S4C ar ganllawiau rhaglenni ac apiau'r dyfodol, os rhywbeth, hyd yn oed yn bwysicach i ni nag ydyw i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn Saesneg, a byddem yn annog y Llywodraeth i wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi'r amcan o barhau i roi lle amlwg i S4C. Yn hyn o beth, mae S4C eisoes wedi cyfarfod y Gweinidog dros Faterion Digidol a'r Diwydiannau Creadigol, y BBC, C4 ac OFCOM i drafod y mater, ac mae S4C yn croesawu ymgynghoriad diweddar OFCOM ar y pwnc.

Bydd S4C yn ceisio hyrwyddo'i hamlygrydd yn y dyfodol i'r eithaf drwy ymwneud mwy â datblygu ei phresenoldeb ar iPlayer, diolch i'w phartneriaeth gyda'r BBC, ond hefyd drwy farchnata digidol gwell gan ddefnyddio data y mae'n ei gipio drwy ei chwaraewr Clic ei hun.

**Llywodraethiant**

Mae llawer o heriau ynghlwm wrth sicrhau gweithredu strategaeth newydd yn llwyddiannus, wrth gwrs. Yn fewnol, bydd angen sgiliau newydd – meddylfryd newydd – gan yrru datblygiadau newydd yn eu blaenau wrth gynnal y sianel linol.

Croesawn y cynigion a wnaed, a chytunwn fod y model llywodraethiant newydd sydd wedi'i argymell yn debygol o ddarparu mwy o eglurder ynglŷn â sut a ble y caiff strategaeth y dyfodol ei datblygu a'i chymeradwyo, gan nodi'n glir fod S4C yn un corff ac y gwneir pob penderfyniad allweddol gan ei Bwrdd, a fydd yn cynnwys y Prif Weithredwr ac uwch swyddogion eraill, yn ogystal â mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol.

Bydd angen iddi fod yn glir, fodd bynnag, fod gan aelodau anweithredol y Bwrdd ddyletswyddau penodol o ran craffu a monitro perfformiad gweithredol, gan gynnwys perfformiad y gwasanaethau y mae S4C yn eu darparu. Hwylusir hyn drwy gadw'r egwyddor fod cyfrifoldeb golygyddol a phenderfyniadau comisiynu cynnwys, o fewn fframwaith strategol cyffredinol wedi'i gymeradwyo, yn nwylo'r Prif Weithredwr a'i dîm.

Credwn y gellir mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r materion hyn a materion cysylltiedig drwy Reolau Sefydlog newydd, ac y bydd y rhain yn galluogi aelodau presennol yr Awdurdod, ynghyd â nifer benodol o gyfarwyddwyr annibynnol a hefyd cyfarwyddwyr gweithredol ddylai gael eu cynnig gan bwyllgor enwebiadau o'r bwrdd, i weithredu fel Bwrdd unedig cysgodol tra'n aros am ddeddfwriaeth maes o law. Credwn y gall hyn ddigwydd cyn yr hydref, yn unol â'r amserlen a argymhellwyd. Mae aelodau newydd Bwrdd yr Awdurdod a benodwyd yn ddiweddar wedi cael gwybod y byddant yn dod yn aelodau o'r bwrdd unedol newydd yn awtomatig.

**Cyllid**

Croesawn yn gynnes iawn bwyslais yr Adolygiad ar bwysigrwydd sefydlogrwydd a thryloywder ariannol ar gyfer S4C, ynghyd â chefnogaeth y Llywodraeth i'r sylwadau hyn. Er i ni obeithio y byddai'r Adolygiad yn awgrymu egwyddorion a fyddai'n fodd i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud penderfyniadau yn y dyfodol ynglŷn â digonolrwydd cyllid ar gyfer S4C, mae'r sylwadau hyn yn cynnig y gobaith na fydd cyllid S4C yn destun dadlau rheolaidd mwyach. Bydd hyn yn helpu sicrhau bod ffocws y sefydliad yn llwyr ar gyflawni ei swyddogaethau craidd.

Bydd, wrth gwrs, yn her yn y tymor byr i sicrhau bod yr arian sydd ar gael yn ddigonol i ariannu nifer o lwyfannau a mathau o wasanaethau. Mae'r gynulleidfa ar gyfer cynnwys Cymraeg yn un amrywiol, a rhaid cydbwyso ein brwdfrydedd dros ddigidol gan ein cyfrifoldeb i barhau i ddiwallu anghenion y rheiny sy'n dewis y sgrin deledu, naill ai'n fyw neu fel gwasanaeth dal-i-fyny, fel mecanwaith darparu adloniant a gwybodaeth. Bydd hyn yn mynnu cydbwyso blaenoriaethau yn ofalus, gan gyfeirio'n gyson at ddewisiadau cynulleidfaoedd. Bydd y disgwyliad o gael sefydlogrwydd cyllid, fodd bynnag, yn darparu sylfaen dda ar gyfer parhau i geisio'r arbedion effeithlonrwydd y bydd eu hangen.

Mae'r argymhelliad y dylai S4C maes o law gael ei hariannu'n llawn gan ffi'r drwydded deledu wedi denu llawer o sylw.

Mantais amlwg cael cyllid S4C yn ei gyfanrwydd o ffi'r drwydded yw y gellir gwneud yr ymrwymiad am gyfnod o bum mlynedd, yn gyfochrog â setliad ffi'r drwydded ei hun. Hwn felly yw'r mecanwaith ar gyfer cyflawni sefydlogrwydd cyllido o 2022/23 ymlaen. Nid yw'r Adolygiad yn dweud dim ynglŷn â chwestiwn cwantwm y cyfryw gyllid, a'i berthynas â chyfrifo setliad ffi'r drwydded yn gyffredinol. Byddem yn dymuno sicrhau yr ymgynghorir ag S4C yn llawn, a'i chynnwys yn llawn, ym mhob agwedd berthnasol ar y trafodaethau sy'n arwain at setliad ffi'r drwydded ar gyfer y cyfnod 2022/23 ymlaen.

Rydym ninnau wedi mynegi pryderon yn y gorffennol ynglŷn â'r perygl fod cyllid o un ffynhonnell yn creu canfyddiad o golli annibyniaeth i S4C. Fodd bynnag, mae dau ffactor wedi ein harwain i adolygu'r farn honno.

Mae'r Cytundeb Partneriaeth a lofnodwyd y llynedd gyda'r BBC yn dangos yn glir mai partneriaeth rhwng dau gorff annibynnol yw'r bartneriaeth hon, ac mae sylwadau'r Adolygydd ynghyd ag ymateb y Llywodraeth ynglŷn â phwysigrwydd parhad annibyniaeth S4C yn gadarn ac eglur iawn. Croesawn yr ymrwymiad hwnnw yn fawr.

**Y Gymraeg**

Mae pawb – o ryw oed arbennig, o leiaf – yn cofio ac yn deall pam y cafodd S4C ei chreu. Mae'n elfen hollbwysig yn yr ymdrech i sicrhau dyfodol i'r iaith Gymraeg. Mater o synnwyr cyffredin fu hi erioed fod gan S4C ran i'w chwarae yn natblygiad yr iaith, ond gallai argymhelliad yr Adolygiad y dylid cydnabod hyn yn fwy eglur, ynghyd â chefnogaeth ffurfiol y Llywodraeth i'r farn hon, fod yn un pellgyrhaeddol.

Go brin bod rhaid dweud na all darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn y traddodiad Prydeinig fod yn gangen o unrhyw lywodraeth. Mae'r rhyddid i graffu a gwneud sylwadau ar bolisïau llywodraeth Cymru a'r DU, gan gynnwys y rheiny'n ymwneud â'r Gymraeg, o fewn ein rhaglenni, yn rhan hanfodol o'n treftadaeth ddarlledu. Bydd yn bwysig iawn i ni felly ddiffinio'n glir beth mae'r ddarpariaeth newydd hon yn ei olygu a sut y caiff ei rhoi ar waith.

Partneriaethau effeithiol fydd y prif ateb. Ceir geiriau cadarn am hyn yn yr adolygiad. Mae'n bwysig i ni eu clywed. Mae angen i ni gydnabod nad yw'r sgiliau na'r arbenigedd gennym yn fewnol ar hyn o bryd i wireddu'r holl obeithion a disgwyliadau. Felly mae'r angen i drafod a gweithio gydag eraill yn amlwg.

**Partneriaethau Eraill**

Mae prif bartneriaethau S4C gyda'r sector cynhyrchu a'r BBC. Mae'r adolygiad yn croesawu ac yn cymeradwyo'r bartneriaeth gyda'r BBC, a cheir awgrym penodol ynglŷn â natur darpariaeth newyddion a fydd yn cael ei drafod ymhellach. Ond mae'n ymddangos bod angen i ni edrych eto ar ffyrdd o gryfhau ein perthynas gyda'r sector cynhyrchu drwy TAC.

Teimlwn fod sylwadau'r Adolygiad am ein system gomisiynu wedi colli newidiadau a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r sylwadau yn tueddu i adlewyrchu'r sefyllfa pan oedd pwysau trwm i gynnal y gwasanaeth tra'n ymdopi â thoriadau ariannol mawr. Golygodd hyn, er mwyn sicrhau cyflenwad rhaglenni diogel, y dilynwyd strategaeth yn canolbwyntio ar nifer o gyflenwyr mawr er mwyn sicrhau màs critigol yn ystod cyfnod o gwtogi'n aruthrol ar gyllidebau rhaglenni. Bellach, mae S4C wedi cyfarfod aelodau TAC i egluro'r newidiadau a wnaed ac i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yr effeithir arnynt yn deall nad yw'r strategaeth flaenorol yn cael ei gweithredu mwyach. Mae penderfyniadau comisiynu, erbyn hyn, yn cael eu hysgogi'n gliriach gan flaenoriaethau'r gwasanaeth, nid yr angen i gyflawni newid sylweddol o ran arbedion effeithlonrwydd yn dilyn y gostyngiad yng nghyllid S4C, ac rydym yn sicr mai dyna sut y dylai hi fod yn y dyfodol hefyd, yn enwedig os cyflawnir sefydlogrwydd cyllido.

Dymuniad S4C bob amser fyddai gallu ymgysylltu â chorff cynrychioliadol cryf sy'n gallu cynrychioli buddiannau cwmnïau cynhyrchu o bob maint, ond rydym yn cydnabod y bu teimlad ymhlith rhai nad oedd lleisiau cyflenwyr llai yn cael eu clywed. Mae S4C eisoes wedi ymgysylltu â TAC ynglŷn â'r ffordd orau i gynyddu ymgysylltiad cwmnïau llai, ac mae wedi bod yn galonogol gweld hyn yn dwyn ffrwyth gyda nifer gynyddol o gwmnïau bach yn ymuno â'r sefydliad. Er mwyn sicrhau cydraddoldeb mynediad i'n tîm comisiynu, rydym wedi dechrau sesiynau agored hefyd er mwyn i bob cwmni ddod i gwrdd â'n Comisiynwyr er mwyn deall eu gofynion yn y dyfodol ac i gyflwyno syniadau.

Rydym yn cytuno bod angen ail-ymgysylltu â chwestiynau ynglŷn â sicrhau sgiliau digonol i'r dyfodol o fewn y diwydiannau creadigol yn sgil colli Cyfle a Skillset Cymru, yn enwedig mewn perthynas â'n huchelgais digidol. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i'r cyfeiriad hwn, gydag S4C a TAC yn comisiynu ymchwil ar y cyd i anghenion sgiliau'r diwydiant i'w chyhoeddi yn ystod hydref 2018.

**Cyfleoedd masnachol**

Croesawn fwy o ryddid i weithredu'n fasnachol a bu diddordeb gennym mewn clywed rhai o sylwadau dilynol yr adolygydd ynglŷn â natur benodol y cyfleoedd y teimlai y gellid eu hadnabod.

Byddwn yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i gyfateb cyllid S4C â ffynonellau cyllid eraill ar gyfer prosiectau sy'n cyflawni amcanion tebyg, fel creu cynnwys digidol a chynnwys arall yn y DU ar gyfer plant a phobl ifanc. Rydym yn cydnabod hefyd fod S4C mewn sefyllfa unigryw i weithredu fel catalydd ar gyfer creu cynnwys Cymraeg ar bob llwyfan. Ein profiad ni, fodd bynnag, yw ei bod yn eithriadol o anodd i greu elw o gynnwys Cymraeg ynddo'i hun, hyd yn oed ar sail ryngwladol, oherwydd bod y ddarpar gynulleidfa yn fach. A siarad yn gyffredinol, mae cyfleoedd masnachol yn codi pan fydd y cynnwys yn cael ei greu yr un pryd yn Saesneg neu mewn sawl iaith. Gan fod S4C eisoes yn ymwneud llawer iawn â sicrhau cyllid cyd-gynhyrchu i ategu ei chyllid ei hun (sicrhawyd £23m dros 6 blynedd), nid yw hyn ynddo'i hun yn weithgarwch newydd i ni a byddwn yn dymuno adeiladu ar yr hanes blaenorol hwn. Mae S4C yn arloesi o ran partneriaethau newydd gyda dosbarthwyr rhyngwladol fel All3media a Parade Media gan edrych ar sut gallwn gael gafael ar fwy o gyllid cyd-gynhyrchu, ond hefyd sicrhau'r cyllid hwn yn gynharach yn y broses. Er enghraifft, yn ddiweddar, cynhaliodd S4C sesiwn ar gyd-gynhyrchu gyda'r sector, lle gwnaed cyflwyniad gan All3Media ar y llwybrau i'r farchnad a'r gwaith paratoi sydd ei angen.

Rydym yn cytuno â'r argymhelliad y dylai gweithgarwch masnachol ddod o dan reolaeth uniongyrchol y Bwrdd unedol. Mae S4C yn cydnabod yr angen i gysoni ei gweithgareddau masnachol gyda'i meysydd arbenigedd, ond hefyd gyda'i strategaeth graidd. O hyn ymlaen, bydd buddsoddiadau masnachol yn cael eu gwneud yn gyfochrog ag amcanion strategol ehangach S4C. Yn y dyfodol, bydd y Bwrdd Masnachol yn craffu ar fuddsoddiadau potensial, ond bydd yr holl benderfyniadau cyllid yn cael eu cyfeirio drwy'r Awdurdod a, phan fydd yn briodol, y Bwrdd Unedol ei hun. Bydd hyn yn gwarantu goruchwyliaeth fanwl a chysoni penderfyniadau buddsoddi, ynghyd ag adroddiadau rheolaidd ar lefel Awdurdod. Bydd angen i ni fod yn ofalus, fodd bynnag, ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r rhwymedigaeth statudol i beidio â defnyddio unrhyw elfen o gyllid cyhoeddus S4C at ddibenion masnachol.

**Yr hyder i symud ymlaen**

Mae'r Adolygiad wedi gosod heriau caled i ni, ond mae hefyd wedi cynnig y modd o ddarparu sefydlogrwydd gwerthfawr am nifer o flynyddoedd i ddod. Mae S4C wedi hen sefydlu ei lle fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU ac mewn cylchoedd rhyngwladol. Mae cyfresi drama o Gymru, sydd wedi tarddu yn S4C, i'w gweld yn amlwg iawn ar hyn o bryd ar rwydweithiau'r DU a ledled y byd, gan gyfrannu delwedd gadarnhaol o Gymru fel cartref dawn greadigol.

Gwna hyn i ni gredu bod y byd yn wirioneddol agored i ddawn greadigol arloesol, ble bynnag y mae.  Rydym eisiau chwarae ein rhan i wneud yn siŵr bod Cymru yn enillydd yn y byd hwnnw.

Un peth na wnaeth yr adolygiad ei newid yw cenhadaeth unigryw S4C, sef darparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.  Os rhywbeth, mae ei argymhellion yn cryfhau pwysigrwydd y genhadaeth honno.  Rydym yn croesawu hyn, a chredwn y bydd ein cynlluniau ar gyfer gweithredu argymhellion yr Adolygiad yn golygu y bydd S4C yn parhau â rhan ganolog ac unigryw i'w chwarae i sicrhau lle blaenllaw a llwyddiant i'r Gymraeg yng nghyfryngau torfol y dyfodol.

| | |
|---|---|
| Huw Jones | Owen Evans |
| **Cadeirydd** | **Prif Weithredwr** |

## Rhoi’r Adolygiad ar Waith – Ein Cynllun a’n Cynnydd hyd yma

Fe wnaeth yr adolygiad herio S4C i wneud cynnydd mewn nifer o feysydd wrth iddi ymateb i natur ddarniog gynyddol darlledu. Er bod S4C wedi gwneud cynnydd da yn barod mewn llawer o’r meysydd a gwmpaswyd, fe wnawn ni egluro ymhellach nawr beth yw bwriadau S4C a sut y disgwyliwn eu cyflawni. Mae’r newidiadau yn nwylo S4C yn rhannol, ond bydd rhai newidiadau yn dibynnu ar ffactorau allanol, fel newidiadau posibl mewn deddfwriaeth. Am y rheswm hwn, byddwn yn grwpio ein gweithgareddau yn y dyfodol i ddwy adran. Bydd yr adran gyntaf yn canolbwyntio ar faterion strwythurol lle mae angen gweithredu allanol, yn enwedig gan y Llywodraeth. Yn ail, byddwn yn canolbwyntio ar faterion cyflwyno gwasanaethau a materion sefydliadol sy’n gyfrifoldeb i S4C ei hun.

**<u>Argymhellion strwythurol</u>**

Rydym eisoes wedi sôn ein bod wedi derbyn, ac yn wir wedi croesawu’r angen i newid ein strwythurau llywodraethu a’n cylch gwaith.

**Cylch Gwaith Gwasanaeth Cyhoeddus S4C (Argymhelliad 1)**

**Dylai’r llywodraeth ddiweddaru cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein a chael gwared ar gyfyngiadau darlledu daearyddol cyfredol. Bydd hyn yn galluogi S4C i ehangu ei gyrhaeddiad a chynnig ei gynnwys ar amrywiaeth o lwyfannau newydd yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.**

Mae’r cylch gwaith yn un hen erbyn hyn, ac os yw S4C i ymrwymo’r adnoddau i addasu’n llwyr i’r heriau sydd o’n blaen, yn enwedig o ran ein huchelgeisiau digidol, mae angen diweddaru’r cylch gwaith hwnnw. Tra bod Llywodraeth y DU yn ceisio gofod deddfwriaethol i ddeddfu’r darpariaethau hyn, mae’r cyfarwyddyd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol wedi bod yn glir, ac mae S4C eisoes yn gwneud cynnydd yn y maes hwn. Mae cefnogaeth bendant y Llywodraeth i’r newidiadau hyn serch hynny, yn golygu bod S4C eisoes wedi bod yn buddsoddi yn y maes hwn.

Bydd cefnogaeth y Llywodraeth i adnewyddu ein cylch gwaith er mwyn hyrwyddo ein huchelgeisiau digidol yn ein gweld ni’n cyflawni newid sylweddol yn ein galluoedd darlledu digidol dros y ddwy flynedd nesaf. Mae S4C eisoes wedi ail-lansio ei chwaraewr ar-lein, ‘S4C Clic’, i wella profiad y defnyddiwr drwy adnewyddu’r gwasanaeth yn llwyr, a thrwy nifer o welliannau i’w ymarferoldeb a’i sefydlogrwydd. Dim ond y camau cyntaf yw’r gwelliannau hyn, fodd bynnag, i adeiladu ‘Clic’ yn chwaraewr a all fod gystal â chwaraewyr ein prif gystadleuwyr o ran ymarferoldeb a phrofiad. Yn rhan o’n buddsoddiad £3m i alluoedd a chynnwys digidol, dros y 12 mis nesaf, byddwn yn trawsnewid ‘Clic’ yn chwaraewr sy’n cynnig lawrlwythiadau, cynnwys unigryw gan gynnwys setiau bocs a chwaraeon, a’r gallu i gynnig ein cynnwys digidol mwyaf newydd mewn arddull fwy hygyrch, yn enwedig i’n gwylwyr iau. Byddwn hefyd yn cyflwyno mewngofnodi, ac yn dechrau defnyddio data defnyddwyr perthnasol er mwyn gallu teilwra’r chwaraewr i’r unigolyn, gan symud o fodel un i filoedd, i fodel un i un. Dim ond trwy ddatblygiadau fel y rhain, sydd ar gael i wylwyr ledled y DU a lle mae hawliau’n caniatáu, ymhellach i ffwrdd, y gall S4C ddarparu’r math o brofiad darlledu a ddisgwylir yn gynyddol gan ein cynulleidfa. Mae manylion penodol am yr union ffordd y gweithredir y newidiadau hyn wedi’u hatodi yn Atodiad A.

**Cyllid cyhoeddus S4C (Argymhelliad 4)**

**Dylai arian cyhoeddus S4C gael ei ddarparu’n llwyr drwy gyfrwng ffi’r drwydded o 2022/23 ymlaen, gyda’r holl benderfyniadau cyllido yn y dyfodol yn cael eu gwneud fel rhan o setliad cyllid ffi trwydded y BBC.**

Rydym eisoes wedi sôn am sut y teimlwn fod ymrwymiad cadarn Llywodraeth y DU i barhad annibyniaeth S4C yn golygu y gall S4C groesawu'r argymhelliad hwn yn awr, yn amodol ar yr angen i gynnal rôl glir yr Ysgrifennydd Gwladol wrth gytuno unrhyw setliad. Er na fydd trafodaethau setliad cyllid ffi'r drwydded yn dechrau hyd nes 2021, mae S4C yn edrych ymlaen at drafodaethau teirochrog gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC wrth i unrhyw setliad neu fformwla i'r dyfodol gael ei gytuno.

Yn y cyfamser, mae S4C yn croesawu'r sefydlogrwydd cyllid a gadarnhawyd yn ymateb y Llywodraeth ac mewn datganiadau a wnaed gan y Gweinidog ar gyfer Materion Digidol a'r Diwydiannau Creadigol. Mae'r sefydlogrwydd hwn yn gam pwysig i sicrhau y gall S4C ail-gydbwyso ei blaenoriaethau gwario, gan gynnal ansawdd ei chynnwys wrth iddi ateb yr her ddigidol.

Ar lefel ymarferol, nodwn yr angen i sicrhau bod lefel cyllid S4C yn y dyfodol o Ffi'r Drwydded, a'r broses ar gyfer pennu'r cyllid hwn (gan gynnwys gofynion a.31 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 a chymal 39 y Cytundeb Fframwaith) yn cael eu pennu a'u cytuno ochr yn ochr â thrafodaethau ynglŷn â setliad Ffi'r Drwydded gyda'r BBC ar gyfer ail gyfnod ffi trwydded y Siarter Frenhinol gyfredol. Ystyriwn fod hyn (h.y. trafodaethau cyfochrog gan gynnwys S4C yn llawn) yn hollbwysig os yw annibyniaeth S4C, a'r egwyddor cyllid digonol, yn mynd i gael eu parchu yn unol ag argymhellion yr Adolygiad ac ymateb y Llywodraeth.

**Pwerau masnachol S4C (Argymhelliad 5)**

**Dylai'r llywodraeth ystyried diwygio'r gofynion cymeradwyo cyfredol i roi mwy o ryddid i S4C fuddsoddi a chreu refeniw masnachol.**

Croesawn argymhelliad yr adolygiad y dylid rhoi mwy o ryddid i S4C weithredu'n fasnachol. Rydym wedi gweithredu'n gyflym hefyd i archwilio'r modd y mae'n rhaid i'n strategaeth fasnachol addasu yng ngolau canfyddiadau'r Adolygiad ar draws nifer o feysydd, a gallwn gadarnhau bod Strategaeth Fasnachol newydd eisoes ar waith. Bydd y strategaeth hon, a ddatblygwyd gan fanteisio ar gyngor allanol sylweddol a phrofiadol, yn galluogi S4C i geisio mwy o enillion o'r farchnad ddarlledu ddatblygol mewn meysydd traddodiadol a meysydd digidol mwy datblygedig. Fodd bynnag, mae'r strategaeth newydd hefyd am ddysgu gwersi o'r gorffennol gan sicrhau bod buddsoddiadau'n cael eu gwneud mewn meysydd arbenigedd a'u cefnogi gan lywodraethu gwell er mwyn darparu'r sicrwydd y cynhelir profion llawn ar benderfyniadau buddsoddi. Er y bydd gweithgareddau dyheadau masnachol S4C yn parhau i gael eu sbarduno'n gyfan gwbl o'i chronfeydd masnachol, bydd strategaeth gyffredinol y sianel yn gyrru'r buddsoddiadau hyn mwy a mwy. Yn sgil cytuno Strategaeth Fasnachol newydd S4C, rydym ar y trywydd iawn i wneud y strategaeth newydd yn gwbl weithredol o ran cyfeiriad a llywodraethu yn ystod hydref 2018. Bydd y strategaeth newydd yn cael ei chyfleu wedyn ymhlith partïon perthnasol a bydd ar gael ar wefan gorfforaethol S4C.

Bydd y trefniadau llywodraethu ar gyfer y gweithgareddau masnachol yn cael eu hamlinellu yn Rheolau Sefydlog newydd S4C. Bydd y rhain yn cael eu trafod gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mewn pryd i gyflwyno'r bwrdd unedol cysgodol ym mis Medi.

**Trefniadau llywodraethu - Bwrdd Unedol (Argymhelliad 6)**

**Dylid newid Awdurdod S4C am fwrdd unedol newydd sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol.**

S4C

Rydym eisoes wedi croesawu'r symud arfaethedig o fodel Awdurdod S4C i Fwrdd Unedol. Byddwn yn sefydlu Bwrdd Unedol cysgodol ym mis Medi 2018 hyd nes y caiff deddfwriaeth ei chyflwyno i gadarnhau'r newidiadau arfaethedig. Wrth weithredu'r argymhelliad hwn, byddwn yn defnyddio arfer gorau o fodelau tebyg, gan gynnwys y BBC, a hefyd darpariaethau perthnasol Côd Llywodraethu Corfforaethol y DU a chodau eraill. Byddwn yn sicrhau y bydd y model bwrdd unedol cysgodol yn cynnwys darpariaethau llywodraethu ac atebolrwydd addas.

O ystyried pwysigrwydd llywodraethu da a graddfa amser uchelgeisiol ar gyfer cyflwyno'r argymhelliad hwn, bydd yr elfennau canlynol wedi'u cytuno a'u cyflawni erbyn diwedd mis Medi 2018:

- Adolygiad o Reolau Sefydlog y bwrdd i adlewyrchu cyfrifoldeb bwrdd unedol newydd, dulliau gweithio a dirprwyaethau i'r Prif Swyddog Gweithredol;

- Adolygiad o reolau sefydlog Pwyllgorau'r bwrdd i adlewyrchu'u rôl ddiwygiedig, gan gynnwys rolau craffu a goruchwylio cliriach ar gyfer rhai pwyllgorau, fel y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a'r Pwyllgor Cynnwys;

- Datblygu strwythur atebolrwydd a llywodraethu newydd ar gyfer gweithgareddau masnachol S4C;

- Darparu gwybodaeth glir ar wefan S4C er mwyn egluro'r newidiadau;

- Creu rhaglen ymsefydlu newydd ar gyfer yr holl gyfarwyddwyr – i gynnwys cyfarwyddwyr presennol a chyfarwyddwyr anweithredol newydd, yn ychwanegol at y cyfarwyddwyr gweithredol a swyddogion gweithredol eraill a fydd yn mynychu cyfarfodydd bwrdd;

- Amlinellu ymrwymiadau adrodd blynyddol er mwyn sicrhau trefniadau atebolrwydd addas - gan gynnwys paratoi a chyhoeddi Cynllun Blynyddol i gyd-fynd â'r Datganiad o Bolisi Rhaglenni statudol.

- Byddai'r ymrwymiadau hyn yn ychwanegol at ofynion statudol presennol a gofynion eraill sy'n cynnwys paratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon, a chyflwyno'r adroddiad i'r Senedd a Chynulliad Cymru, mynychu cyfarfodydd pwyllgorau dethol Materion Cymreig a Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, mynychu cyfarfodydd pwyllgorau Cynulliad Cymru, darparu adroddiadau sicrwydd ariannol i Bwyllgor Archwilio'r BBC a sicrhau cydymffurfio â gofynion rheoleiddio Ofcom.

**Trefniadau Archwilio S4C (Argymhelliad 7)**

**Dylai'r llywodraeth ystyried a yw trefniadau archwilio ariannol cyfredol S4C yn addas, gan gynnwys a fyddai'n briodol penodi Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd allanol S4C.**

Mae S4C a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon eisoes wedi dechrau ar drafodaethau ynglŷn â threfniadau archwilio allanol S4C yn y dyfodol. Gallwn gadarnhau fod mynediad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i gyfrifon S4C yn barod at ddibenion gwerth am arian trwy Gytundeb Gweithredu 2013 a Chytundeb Partneriaeth 2017 rhwng S4C a'r BBC. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gweld Datganiad o Gyfrifon blynyddol S4C hefyd drwy'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Nodwn a chroesawn y ffaith fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi derbyn yr argymhelliad hwn, a byddwn yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth i drafodaethau gyda'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol fynd rhagddynt.

Bydd y trafodaethau hyn yn cynnwys ystyriaethau fel cwmpas a strwythur ffioedd fel y bo'n briodol. Yn ystod y cam hwn, bydd cytundeb archwilio allanol cyfredol S4C (gyda Grant Thornton) yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19. Mae S4C yn cynnig y dylai'r cytundeb presennol barhau hyd y diwedd, ac mai Grant Thornton felly ddylai archwilio Datganiad o Gyfrifon 2018/19 tra bod trafodaethau'n parhau.

Yn ystod y cyfnod hwn, byddai S4C a Grant Thornton yn cydweithredu â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a byddai'n darparu mynediad priodol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i waith archwilio S4C am gryn amser eto. Yn y cyfamser, ac yn amodol ar gyd-drafodaethau'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, gall S4C, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol drafod a chytuno trefniadau archwilio allanol i'r dyfodol.

**Rheoleiddio gwasanaethau S4C**

Nodwn gasgliadau'r Adolygiad bod y darpariaethau a'r strwythur rheoleiddio yn ymwneud â gwasanaethau teledu S4C yn effeithiol yn gyffredinol, ond nad yw'r fframwaith presennol yn eglur i ran-ddeiliaid allanol o angenrheidrwydd. Eto, mae S4C wedi ceisio gwneud cynnydd cyflym o ran yr argymhellion, a gallwn gadarnhau bod S4C wedi cynnal trafodaethau adeiladol gydag Ofcom Cymru a Chadeirydd Ofcom mewn perthynas ag opsiynau ar gyfer egluro a chyhoeddi'r darpariaethau rheoleiddio statudol presennol. Mae S4C wedi cytuno i ddarparu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft i Ofcom i'w drafod, gyda'r bwriad o'i weithredu a'i gyfleu ar wefannau S4C ac OFCOM yn ystod hydref 2018.

Yn y tymor byr, byddwn yn nodi'r ddarpariaeth reoleiddio berthnasol yn glir ar ein gwefan, a disgwyliwn iddi fynd yn fyw ym mis Medi 2018.

**Rhoi datblygiadau gwasanaeth a datblygiadau sefydliadol ar waith**

Yn ogystal â'r materion strwythurol yr ymdriniwyd â nhw uchod, gwnaeth yr adolygiad annibynnol argymhellion gyda'r bwriad o wella darpariaeth gwasanaethau S4C, a'r modd y mae'r sefydliad yn gweithredu. Yn wahanol i'r angenrheidrwydd am ymglymiad y Llywodraeth wrth weithredu materion strwythurol, rydym yn cydnabod yr angen i ddatblygiadau gwasanaeth a datblygiadau sefydliadol gael eu cyflawni gan S4C, yn unol â'r argymhelliad, a dderbyniwn, a pharhau â'r gwaith hanfodol o asesu anghenion a buddion cynulleidfaoedd.

## Datblygiad digidol (gan gynnwys Hyb Digidol S4C – Argymhelliad 2)

## Dylai S4C sefydlu hyb digidol mewnol i ddatblygu a gwella ôl-troed digidol S4C a bod yn sail i glwstwr digidol Cymraeg.

Ni all S4C gystadlu â darlledwyr eraill o ran cyrraedd cynulleidfaoedd os na pharhawn i goleddu'r chwyldro digidol. Cyfrannodd yr Adolygiad ei hun at drafodaeth sylweddol ynglŷn â'n cyfeiriad i'r dyfodol, ac ers ei gyhoeddi, mae S4C wedi cymryd sawl cam er mwyn manteisio'n llawn ar y newid sydd ar ddod o ran cylch gwaith, a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil hynny.

Ar y lefel uchaf, mae S4C eisoes wedi cadarnhau a lansio ei strategaeth ddigidol gyffredinol, gan gefnogi hynny â buddsoddiad o £3m sydd wedi'i ail-flaenoriaethu o gronfeydd presennol dros y tair blynedd nesaf. Bydd y buddsoddiad hwn yn adeiladu Hyb Digidol yn S4C gydag arbenigedd ar draws creu a chyflwyno cynnwys yn ogystal ag ymdrin â data a manteisio ar ddata. Er y bydd y sgiliau a'r gweithgareddau hyn yn cael eu defnyddio ar draws S4C, bydd llawer o'r gweithgareddau yn digwydd yn ein pencadlys newydd yng Nghaerfyrddin.

Mae’r strategaeth hon yn cwmpasu pedwar prif faes. Y cyntaf yw adnewyddu chwaraewr S4C ‘Clic’. Rydym eisoes wedi gwneud sylwadau ar y datblygiadau hyn uchod. Rydym wedi cryfhau’r adnodd yn y maes hwn, ac mae gennym gynllun a fydd yn gweld cynnydd tuag at chwaraewr â chynnwys unigryw mewn sawl fformat, galluoedd lawrlwytho a gallu cipio data cyn pen 12 mis.

Yr ail faes yw storio a manteisio ar y data y bwriadwn ei gipio drwy’r chwaraewr, gan ystyried holl ofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Dosberthir y gweithgareddau hyn i dri chyfnod, ac atodir eu manylion yn Atodiad A, ond yn y pen draw bydd S4C yn gallu cipio, cynnal a manteisio ar y data a gasglwyd. Er bod rhywfaint o gapasiti a gallu gan S4C yn y maes hwn, rydym wedi gwneud defnydd helaeth o arbenigedd allanol wrth i ni lunio ein cynllun gweithredu. Mae’r cynllun hwn eisoes yn y cam gweithredu, ac mae dadansoddwyr busnes yn eu swyddi yn barod.

Y trydydd maes yw tyfu ein cynnwys yn y gofod digidol. Bydd rhan o’r buddsoddiad £3m yn gweld ehangiad mewn cynnwys ffurf fer a ffurf ganolig drwy’r brand Hansh, yn arwain at ei lansio fel sianel Ddigidol ar ei phen ei hun ar chwaraewr Clic yn ystod hydref 2018. Bydd y sianel hon ar ei phen ei hun yn cynnig cynnwys newydd yn wythnosol, a ategir gan ôl-gatalogau hawdd mynd atynt, ynghyd â deunydd archif, a bydd yn targedu’r grŵp oed 16-34. Bydd cynnwys yn amrywiol ac wedi’i gynllunio i apelio at ystod eang o’r segment targed. Mae strategaeth gomisiynu S4C wedi canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau yn y maes hwn, ac rydym yn falch fod dros 14 o gwmnïau cynhyrchu yn gallu cyflenwi’r math newydd hwn o gynnwys erbyn hyn, o gymharu â llai na 5 mlynedd yn ôl. Mae’r cyfoeth hwn o ddawn a chapasiti, am y tro, wedi lliniaru’r angen i feithrin galluoedd mewnol, ond bydd S4C yn parhau i fonitro a yw am ddechrau adeiladu ei chapasiti cynhyrchu ei hun yn fewnol. Gallai’r rhyddidau masnachol newydd chwarae rhan mewn datblygu integreiddio fertigol yn y maes hwn.

Yn ychwanegol at y sianel ddigidol ar ei phen ei hun, rydym eisoes wedi hysbysebu ar gyfer creu rôl Curadur a chynorthwyydd ar gyfer Chwaraewr Clic, fel y gallwn gynnig deunydd dethol o archif S4C a symud i ffwrdd oddi wrth amserlennu llinol ar ein llwyfannau digidol. Mae’r penodiadau hyn yn nodi datblygiad arwyddocaol wrth i S4C symud at ymagwedd fwy aml-lwyfan at ddarlledu.

Y pedwerydd maes sy’n cael ei ddatblygu yw marchnata a hyrwyddo ein rhaglenni gan ddefnyddio’r data sydd ar gael ar arferion gwylio, ond hefyd y sianeli cyfryngau cymdeithasol sydd ar gael. Eto, er bod rhywfaint o allu a chapasiti o fewn S4C, rydym wedi penderfynu cryfhau ein sgiliau a’n ffocws yn y maes hwn, a bydd tîm newydd yn cael ei greu i ganolbwyntio ar farchnata digidol yn ystod hydref 2018, ac mae penodiad allweddol eisoes wedi’i wneud i arwain y tîm hwnnw. Cyn pen deuddeg mis, bydd S4C mewn sefyllfa i hyrwyddo’i rhaglenni yn uniongyrchol i’r gwyliwr unigol ar sail ei ddewisiadau ei hun, a’u darparu drwy’r dull cyfathrebu o’i ddewis.

Wrth lunio’r strategaeth ddigidol newydd, mae S4C wedi cysylltu ag arbenigwyr profiadol o’r meysydd creadigol a thechnegol. Daw’r arbenigwyr o’r sefydliadau mwyaf yng Nghymru ond hefyd o blith arweinwyr yn eu meysydd yn Llundain a’r Unol Daleithiau.

**Partneriaethau a chydweithredu (gan gynnwys Argymhelliad 3)**

**Dylai S4C sefydlu partneriaeth iaith gyda Llywodraeth Cymru ac eraill er mwyn helpu cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

Dylai S4C sefydlu partneriaeth iaith gyda Llywodraeth Cymru ac eraill er mwyn helpu cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae argymhelliad 3 yr Adolygiad Annibynnol yn rhoi ffocws penodol ar gyfraniad posibl S4C at gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Croesawn yr argymhelliad a'r ffaith bod y llywodraeth yn amlwg yn derbyn yr argymhelliad, a chytunwn fod gan S4C ran bwysig i'w chwarae o ran sicrhau dyfodol y Gymraeg fel iaith fyw. Hefyd, croesawn y cyfle i adeiladu perthynas fwy strategol gyda Llywodraeth Cymru, ac yn wir Cynulliad Cymru.

Er bod rhaid i S4C bob amser warchod ei hannibyniaeth a'i huniondeb golygyddol, yn amlwg, ceir meysydd lle gallwn gydweithredu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru.

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, mae S4C a Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eu bwriad i weithio gyda'i gilydd ar ymyriadau â ffocws i gefnogi'r iaith. Y tri maes sydd wedi'u cytuno lle bydd S4C yn gallu cydweithredu yn y modd gorau ac ychwanegu gwerth yn ystod y cyfnod 2018-2021 yw: cynorthwyo dysgwyr Cymraeg, addysg, a phlant a phobl ifanc. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt i ffurfio partneriaethau penodol, gan gyflawni nodau wedi'u targedu'n ofalus yn y meysydd hyn. Yn ogystal â Llywodraeth Cymru, mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal nawr gyda phartneriaid allweddol eraill, gan gynnwys BBC Cymru, y Mudiad Meithrin, yr Eisteddfod Genedlaethol, Yr Urdd, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cael cymaint o effaith ag y bo modd, rydym wedi rhoi ffocws newydd i'n strategaeth partneriaeth, ac fe'i lansiwyd ym mis Mehefin 2018 ar ôl i ni ystyried awgrymiadau'r Adolygiad. Gellir gweld hon yn Atodiad B.

Yn yr un modd, rydym wrthi'n trafod gyda'n partneriaid gyda'r nod o gryfhau ein cydweithredu gyda TAC a'r diwydiannau creadigol ehangach yng Nghymru, ac mae trafodaethau helaeth yn mynd rhagddynt ar fynd i'r afael â rhai bylchau sgiliau sectoraidd. Rydym yn bartner yng Ngrŵp Awduron newydd y Theatr Genedlaethol, a fydd yn cynnig cyfle i hyd at wyth o awduron theatr newydd neu ddatblygol sy'n gweithio yn Gymraeg i ddatblygu'u crefft trwy gyfres o ddigwyddiadau, gweithdai a mentoriaeth dros gyfnod o 10 mis o hydref 2018. Gydag ITV Cymru Wales, mae dau newyddiadurwr dan hyfforddiant yn dysgu'r sgiliau sydd eu hangen i wneud cynnwys newyddion a materion cyfoes ar gyfer ein brand ar-lein, Hansh. Yn ogystal, mae datblygu sgiliau wedi bod yn un o gynhyrchion craidd ein partneriaeth gyda Chyngor Celfyddydau Cymru; mae cynllun mentora a hyfforddi lefel uchel ar gyfer cyfarwyddwyr newydd, Y Labordy 2, yn tynnu at ei derfyn nawr. Fe wnaeth pedwar awdur elwa o raglen bartneriaeth gyntaf Labordy, a ariennir drwy Ffilm Cymru Wales hefyd.

Deliwn yn rheolaidd hefyd â sefydliadau a chyrff perthnasol ehangach [e.e. y CBI, Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol] o ran datblygu polisi, cyfleoedd rhwydweithio a chyfnewid syniadau, yn ogystal â rhannu arfer da. Hefyd, mae S4C wedi partnera â Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, y BBC ac eraill mewn ymgais i sicrhau cyllid datblygu digidol o'r Rhaglen Clystyrau Diwydiannau Creadigol (CICP) gwerth £80m sy'n cael ei harwain gan y Cyngor Ymchwil i'r Celfyddydau a'r Dyniaethau a'i hariannu gan Gronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol (ICSF) Llywodraeth y DU. Rydym yn disgwyl canlyniad y broses gystadleuol hon ym mis Medi 2018.

Mae S4C yn gatalydd o ran datblygu'r diwydiannau creadigol yn ardal Caerfyrddin yn sgil creu ein pencadlys newydd, Canolfan S4C Yr Egin. Er bod sicrhau llwyddiant y datblygiad hwn dros y blynyddoedd i ddod yn flaenoriaeth, rydym hefyd yn datblygu cynlluniau i gefnogi twf y diwydiannau creadigol yng ngogledd ddwyrain Cymru. Rydym eisoes wedi ail-flaenoriaethu cyllid blynyddol cylchol o £400,000 y flwyddyn i'r ardal hon, ac rydym wrthi'n trafod gyda chwmnïau cynhyrchu, Coleg Cambria a Phrifysgol Glyndŵr a Llywodraeth Cymru ynglŷn â chreu diwydiant cyfryngau cynaliadwy yn y rhanbarth hwn. Bydd hyn yn ychwanegol at drafod y potensial i ddatblygu'r defnydd o'n harchif gyda phartneriaid, gan gynnwys Sefydliad Ffilm Prydain a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Bydd S4C yn datblygu strategaeth ar gyfer defnyddio a chipio ei harchif gan adeiladu ar ei buddsoddiad sylweddol yn barod i sicrhau'r adnoddau hyn ar gyfer y genedl. Bydd hyn yn cael ei gwblhau yn ystod hydref 2018 a bydd yn cynnwys Llywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn cydweddu â datblygiadau digidol ehangach.

Yr un mor bwysig fydd perthynas S4C â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrth iddi geisio hyrwyddo a chefnogi datblygu meddalwedd Adnabod Llais yn Gymraeg. Mae S4C eisoes wedi cyfarfod Llywodraeth Cymru ar lefel Gweinidogion, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nifer o gwmnïau technoleg rhyngwladol i gynllunio ffordd ymlaen.

Yn olaf, rydym wedi cymryd camau yn rhyngwladol i gryfhau ein gweithgareddau partneriaeth trwy ddarlledwyr Celtaidd eraill a dosbarthwyr rhyngwladol. Ers i'r Adolygiad Annibynnol gael ei gyhoeddi, mae S4C a'i phartneriaid (MG Alba a TG4) wedi cynnal peilot o bresenoldeb cydweithredol yng ngŵyl Sunnyside of the Doc yn La Rochelle o dan y faner Celtic Connect. Cynlluniwyd y gweithgaredd hwn i adeiladu ar gydweithredu dros y blynyddoedd diwethaf. Gyda'n gilydd, rydym wedi datblygu Fformatau Celtaidd / Celtic Formats, sydd wedi creu cynnwys llwyddiannus fel *Galw Nain Nain Nain* i ni. Hefyd, yn 2017, comisiynwyd *Llanw* (S4C, TG4, Alba, BBC NI a LIC China) ac *Y Wal* (S4C, TG4 a JTV). Mewn symudiad sy'n mynd â'n hymdrechion cydweithredu gam ymhellach, cyhoeddom ein Cronfa Ryngwladol Geltaidd ar ddechrau mis Awst. Mae'r gronfa newydd yn fenter ar y cyd rhwng ILBF, BBC Alba (gyda chyllid gan MG Alba), TG4 ac S4C gyda'r nod o hyrwyddo cyd-ddatblygu ac yna cyd-gynhyrchu trwy ieithoedd Gaeleg yr Alban, Cymraeg a Gwyddeleg, ac i annog rhyngwladoli cynyrchiadau a grëir yn wreiddiol yn yr ieithoedd Celtaidd hynny yn ehangach yn Ewrop ac yn fyd-eang.

Byddwn yn asesu'r prosiect peilot Sunnyside ac yn datblygu cynllun gweithredu gydag MG Alba a TG4. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gydag ystod o ddarlledwyr rhyngwladol e.e. JTV yn Ne Korea (mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng S4C a JTV wedi bod ar waith ers 2014 a chaiff ei adnewyddu'n flynyddol), a chynhyrchwyr fel LIC yn China, y bu S4C, TG4 a BBC Alba yn cydweithredu â nhw ar y gyfres *Llanw*. Yn olaf, rydym wedi cytuno i weithio gyda dosbarthwyr fel All3Media a'r Parade Group i archwilio'r potensial am gytundebau dosbarthu mwy ffurfiol a strategol ar gyfer fformatau newydd.

O ran partneriaethau, mae'r Adolygiad yn codi pryderon hefyd ynghylch nifer o agweddau ar ddarpariaeth newyddion S4C a gyflenwir gan BBC Cymru Wales. Er bod S4C yn fodlon yn gyffredinol gyda'i darpariaeth newyddion, mae mwy i'w wneud, ac mae S4C wedi bod yn ymgysylltu â'r BBC dros y chwe mis diwethaf i wella'r cynnyrch hwn. Mae nifer o gyfarfodydd golygyddol wedi amlygu'r angen i weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod y talent cywir a darpariaeth newyddion ymchwiliadol addas, yn ogystal â darpariaeth newyddion ymatebol, ar gael. Mae lluosogrwydd newyddion yng Nghymru yn ystyriaeth barhaus sydd wedi bod yn destun llawer o drafod gan wleidyddion a sylwebyddion fel ei gilydd. Er mwyn hyrwyddo rhychwant arbenigedd mwy, mae S4C wedi ehangu ystod ei waith comisiynu materion cyfoes gyda'r rhaglen newydd a gynhyrchir gan ITV Cymru Wales *Y Byd yn ei le* yn ychwanegol i *Y Byd ar Bedwar*. Yn ogystal, rydym wedi torri tir newydd drwy lansio ein Cynllun Hyfforddiant Newyddiaduraeth newydd mewn partneriaeth ag ITV Cymru Wales.

**Argymhelliad 5**

**Dylai'r llywodraeth ystyried diwygio'r gofynion cymeradwyo cyfredol i roi mwy o ryddid i S4C fuddsoddi a chreu refeniw masnachol.**

Dros y misoedd diwethaf, ac ers cyhoeddi'r adolygiad annibynnol, mae S4C wedi cynnal adolygiad trwyadl o'i strategaeth fasnachol bresennol a'i chyfeiriad a'i threfn lywodraethu i'r dyfodol. Er i'r adolygiad o weithgareddau blaenorol ddangos enillion cadarnhaol yn gyffredinol a ail-fuddsoddwyd wedyn yng ngwasanaethau cyhoeddus y sefydliad, mae S4C wedi penderfynu nawr y dylai ein gweithgareddau masnachol yn y dyfodol gyd-fynd yn agosach â'n

huchelgeisiau strategol ein hunain.

I gyflawni hyn, mae Awdurdod S4C wedi rhoi cymeradwyaeth i'r Prif Weithredwr a swyddogion lunio cynigion newydd i alluogi S4C Masnachol i fuddsoddi mewn cwmnïau, a allai, oherwydd natur eu gweithgareddau, fod yn gyflenwyr cynnwys i S4C. Gallai'r buddsoddiadau hyn yn wir olygu'r rheiny sy'n cynhyrchu cynnwys digidol. Bydd y cynigion hyn yn mynnu ein bod yn dangos sut gellir cynnal annibyniaeth y broses gomisiynu. Mae'r cynigion hyn yn elfen allweddol o Strategaeth Fasnachol newydd S4C, sydd bellach wedi'i chymeradwyo gan Fwrdd Awdurdod S4C (Atodiad C).

Yng ngolau'r newid uchod i'r Strategaeth Fasnachol, mae Awdurdod S4C wedi derbyn argymhelliad y Prif Weithredwr i greu Panel Buddsoddi mewnol, gyda'r bwriad o sicrhau cysondeb agos rhwng gweithgarwch masnachol S4C a'i gweithgareddau strategol.

Bydd y panel yn cynnwys uwch swyddogion o S4C, gydag arbenigedd allanol yn ychwanegu at hynny yn ôl y gofyn. Bydd rôl y panel yn un ddeublyg, o ran monitro perfformiad buddsoddiadau masnachol presennol yn rheolaidd, ac o ran sicrhau opsiynau buddsoddi posibl newydd. Byddai'r panel wedyn yn dod â'r argymhellion hyn, ynghyd ag adroddiadau ar berfformiad, i'r Bwrdd Masnachol graffu arnynt. Y Prif Weithredwr fydd yn cadeirio'r Bwrdd Masnachol, a fydd yn cynnwys o leiaf ddau aelod anweithredol a dau aelod o'r Awdurdod neu, ymhen amser, y Bwrdd Unedol. Bydd y cadeirydd yn adrodd ar weithgareddau yn gyson i'r Awdurdod neu'r Bwrdd Unedol, a'r cadeirydd fydd â'r rôl benderfynu yn y pen draw ar fuddsoddiadau sylweddol.

Elfen olaf y strwythur llywodraethu diwygiedig fydd newidiadau i derfynau gwariant dirprwyedig y Prif Weithredwr. Pennir y rhain ar lefel briodol ond fe'u gwneir yn rhai cronnol fel bod unrhyw gynnydd mewn buddsoddiadau mewn un corff dros derfyn penodol yn cael eu dwyn i sylw'r Awdurdod.

Yn olaf, mae S4C yn croesawu'r awgrym ei fod yn archwilio pob llwybr ariannu posibl. Mae S4C eisoes wedi sicrhau £23.5m o'i gweithgareddau cyd-gynhyrchu yn y chwe blynedd diwethaf, a bydd yn ceisio parhau ar hyd y trywydd hwn. Er mwyn sicrhau y gallwn hyrwyddo ein henillion posibl i'r eithaf ac arddangos ein cynnwys yn rhyngwladol, mae S4C eisoes wedi ymgysylltu â phrif bartneriaid dosbarthu a'r darlledwyr lleiafrif Celtaidd eraill i lunio strategaeth ryngwladol ehangach. Hefyd, rydym wedi dechrau trafodaethau gyda nifer o bartïon i sicrhau cyllid i fynd ar drywydd ein huchelgeisiau digidol a chynhyrchu, gan bartnera mewn cynnig uchelgeisiol gan y Cyngor Ymchwil i'r Celfyddydau a'r Dyniaethau ar Glystyrau Creadigol, a cheisio cefnogaeth o gronfa gystadlu ("contestable fund") yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei hun.

**Casgliad**

Mae S4C wedi croesawu'r Adolygiad ac argymhellion Llywodraeth y DU. Yn ogystal, mae S4C wedi croesawu'r drafodaeth y mae'r Adolygiad wedi'i hysgogi ymhlith y gymuned ddarlledu, ac mae wedi ystyried llawer o wersi. Er bod rhai gweithgareddau eisoes ar waith wrth i S4C barhau i addasu i'r amgylchedd darlledu newidiol, credwn ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn barod yn yr holl feysydd y tynnwyd sylw atynt yn yr adolygiad. Er y bydd llawer o'r penderfyniadau ynglŷn ag ail-flaenoriaethu cyllid a chapasiti bob amser yn anodd wrth i ni geisio cynnal ansawdd ac amrywiaeth ein prif sianel linol, mae S4C yn torri tir newydd gyda'i strategaeth a'i galluoedd digidol datblygol. Rydym hefyd wedi gweithredu'n gyflym i gyhoeddi strategaeth partneriaeth a strategaeth fasnachol newydd er mwyn hyrwyddo i'r eithaf y defnydd o'r adnoddau sydd ar gael i ni a'n partneriaid. Er y credwn fod S4C yn buddsoddi yn y meysydd a fydd yn dod â gwerth hirdymor i'n gwylwyr, bydd Llywodraeth y DU yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth gyflawni o ran ei hymrwymiadau ei hun ond hefyd o ran prif ystyriaethau strategol ynglŷn ag amlygrwydd y darlledwyr sector cyhoeddus yn y byd digidol datblygol.

Atodiad A

**Strategaeth Ddigidol S4C: 2018 a thu hwnt**

Cyflwyna'r papur hwn y Strategaeth Ddigidol yn dilyn adolygiad annibynnol S4C yn gynharach yn 2018.

Dyma brif nodau strategol S4C ar gyfer y cyfnod rhwng 2018 a 2021:

1. Denu gwylwyr ifancach trwy gynnig cynnwys yn y Gymraeg sy'n berthnasol, â dyluniad cyfoes ac yn hawdd dod o hyd iddo, ei wylio a'i rannu.
2. Personoleiddio. Golyga hyn gynnig gwasanaeth sydd wedi'i saernïo ar gyfer y gwyliwr, gan gysylltu'r gwyliwr yn uniongyrchol â chynnwys sy'n gweddu i'w batrymau gwylio.
3. Gwella seilwaith digidol mewnol S4C er mwyn cynnig gwasanaethau sy'n bodloni'r disgwyliadau sy'n esblygu ymhlith y gynulleidfa.

Er mwyn gwireddu'r nodau strategol hyn, bydd ein ffocws ar y meysydd datblygiad canlynol:

1. **Clic** – Uwchraddiwyd chwaraewr S4C (rhyddhawyd ar 23 Gorffennaf) o ran ei ddyluniad a'i nodweddion, er mwyn cynnig llwyfan a fydd yn hanfodol wrth i ni wireddu camau nesaf ein strategaeth ddigidol.


2. **Personoleiddio** – Cyflwynir y camau cyntaf ym mis Medi a byddant yn galluogi S4C i gynnig cynnwys i ddefnyddwyr y maent yn debygol o fod â diddordeb ynddo yn ôl eu patrymau gwylio a'u hoffterau. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn cyflwyno nodweddion newydd i'r ochr gefn er mwyn cipio a phrosesu data am ddefnyddwyr.

3. **Setiau Bocs** – Ar hyn o bryd, mae S4C y tu ôl i ddarlledwyr eraill gan ei bod yn darparu llwyfan gwylio dal i fyny ar gyfer cynnwys a ddarlledwyd o fewn y 35 diwrnod blaenorol yn unig. Ym mis Medi, bydd S4C yn dechrau darparu cynnwys setiau bocs, h.y. cynnwys na ddarlledwyd yn ystod y 35 diwrnod blaenorol. Mae yna gysylltiad agos rhwng hyn a Phersonoleiddio.

4. **Sianel Ddigidol** – Byddwn yn lansio ein sianel ddigidol yn nes ymlaen eleni, gan ddarparu porth at is-frandiau penodol. Un enghraifft sydd wedi perfformio'n gryf iawn dros y flwyddyn ddiwethaf yw'n harlwy ddigidol, Hansh.

5. **Cynnwys i'w lawrlwytho –** Rydym hefyd yn datblygu cyfleuster ar gyfer lawrlwytho cynnwys, sydd unwaith eto'n gyffredin yn y diwydiant ond nid yw'n ddatblygiad y gallwn ei ddarparu ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn 2019.

Dyma'r amserlen ar gyfer y cynllun Digidol i ddarparu seilwaith mewnol a sefydlu'r systemau data angenrheidiol:




**Cynnwys Digidol a Rhaglennu Llinol**

Mae ymchwil ar y diwydiant yn darogan y bydd mwy o bobl yn gwylio cynnwys trwy lwyfannau digidol eleni, yn hytrach na theledu traddodiadol (Dadansoddiad Enders, Mai 2018). Ein nod, felly, yw sicrhau bod S4C yn darparu cynnwys ar y llwyfannau y mae ein cynulleidfaoedd yn eu defnyddio'n rheolaidd. Rhan hanfodol o'n strategaeth, hefyd, yw adlewyrchu'r ffaith fod teledu yn dal i fod yn boblogaidd, yn enwedig fel cyfrwng ar gyfer digwyddiadau byw a chynyrchiadau o'r safon orau, ac ymchwilio ymhellach i weld sut y gall cynnwys digidol weithio law yn llaw gyda'n harlwy llinol.

Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn y sector cynhyrchu annibynnol, er mwyn darparu cynnwys digidol ychwanegol mewn cydweithrediad â rhaglenni traddodiadol.


Bydd S4C yn parhau i ddarlledu trwy'r brif sianel, ochr yn ochr â'n gwasanaeth dal i fyny. Ond, byddwn yn cynyddu ein presenoldeb yn y byd digidol trwy amrywiaeth o sianelau sy'n cynnig dewis ehangach. Bydd yr arlwy ychwanegol hwn yn cael ei deilwra at chwaeth a dymuniadau'r unigolyn. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn datblygu ac yn gweithredu dulliau ehangach o gyfathrebu, gyda'r nod o newid y cydbwysedd rhwng dulliau traddodiadol a dulliau digidol, er mwyn diwallu anghenion cynulleidfaoedd targed.

Ein nod trwy wneud hyn yw newid y ffordd y cynigiwn ein cynnwys i'n gwylwyr, a gyda'r twf yn y maes hwn, credwn yn gryf y gallwn ddenu mwy o wylwyr trwy'r byd digidol. Rydym yn newid ein ffyrdd o weithio yn fewnol, er mwyn galluogi i hyn ddigwydd, ac er mwyn ymateb yn y dyfodol i ddatblygiadau mewn patrymau gwylio, cynnwys a thechnoleg.

Elfen o'n strategaeth ar gyfer rhannu cynnwys, yw sicrhau presenoldeb ar y prif gyfryngau cymdeithasol, lle'r ydym yn profi llwyddiant ysgubol ac yn cynyddu lefelau ymgysylltu, ond rydym yn gwthio'n gryf hefyd ar fwy nag un llwyfan. Dau o'r llwyfannau hyn yw Facebook a YouTube.

Rydym hefyd yn y broses o gomisiynu mwy o gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr a darparu ffordd i ddefnyddwyr rannu'r cynnwys a gynhyrchir ganddynt yn rhwydd trwy ein sianel.

Mae yna ddwy ochr i'n strategaeth. Un ochr yw'r cynnwys, a arweinir gan y Cyfarwyddwr Cynnwys. Yr ochr arall yw'r ochr dechnegol, sy'n cwmpasu'r amrywiol lwyfannau a'n strategaeth ar gyfer eu defnyddio.




**iPlayer**

Mae ein perthynas ag iPlayer yn bwysig, gan mai dyma un o'r llwyfannau Fideo Ar Alw a ffrydio byw mwyaf llwyddiannus yn Ewrop. Dyma'r llwyfan Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus mwyaf datblygedig o ran technoleg a mynediad at y nifer fwyaf o ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig. Mae'r BBC wedi buddsoddi'n sylweddol yn y llwyfan hwn ac felly mae yna fantais fawr i ni fod ar gael ar y llwyfan hwn. Ar hyn o bryd, ni yw'r unig ddarlledwr y tu allan i deulu'r BBC sydd â phresenoldeb ar iPlayer. Ac eithrio lle y mae hawliau'n ein hatal, mae mwyafrif ein cynnwys ar gael ar iPlayer. Rydym wrthi'n trafod cynyddu amlygrwydd ein cynnwys a chynyddu mynediad at y data a gesglir am y patrymau gwylio, a hynny er mwyn dadansoddi a chynllunio strategaethau comisiynu a marchnata.

Gan fod posibilrwydd o gydweithio rhwng Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus y Deyrnas Unedig yn y dyfodol, ynghylch rhannu llwyfannau, gyda'r nod o hybu amlygrwydd cynnwys Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus, rydym yn agored i gyfleoedd i archwilio gwaith partneriaeth pellach yn y maes hwn.

Atodiad B

# Strategaeth Partneriaethau 2018-2021

**Crynodeb**
Dyma strategaeth S4C ar gyfer gweithredu a chefnogi partneriaethau o 2018-2021. Mae'r strategaeth hon yn disodli'r strategaeth flaenorol ac yn gweithredu argymhelliad yr adolygiad annibynnol o S4C (DCMS 2018) ar bartneriaethau. Byddwn yn adolygu'r strategaeth yn flynyddol.

**Y Sefyllfa Bresennol**
Sefydlwyd yr adran yn 2012 gyda chylch gorchwyl oedd yn cynnwys materion cyhoeddus, sicrhau perthynas dda gyda rhanddeiliaid – gwleidyddol ac eraill – ac i bartnera gyda nod penodol o edrych yn gyson am gyfleoedd newydd a darpar bartneriaid. Cafodd memoranda dealltwriaeth eu creu i ffurfioli nifer o bartneriaethau, yn eu plith BAFTA Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae nifer o bartneriaethau sydd yn bwydo i gynnwys, a'r adran gynnwys sydd wedi arwain ar y rhain, e.e. Canolfan y Mileniwm, yr Urdd a'r Theatr Genedlaethol (MoU gyda'r rhain oll.) Mae S4C hefyd wedi cydweithio'n agos gyda nifer o sefydliadau cenedlaethol eraill gyda'r nod o rannu gwybodaeth, cydweithio neu gefnogi prosiectau unigol gan y naill sefydliad neu'r llall a manteisio ar rwydweithiau cyswllt.

Mae cefnogi a sicrhau gwerth ychwanegol i gynnwys hefyd wedi bod yn rhan o waith yr adran. Gyda strategaeth gynnwys newydd wedi ei mabwysiadu yn 2017, a'r amserlen ddarlledu bellach yn cael ei rhag-gynllunio fwy o flaen llaw, cynyddu fydd y cyfleoedd i wneud hyn yn ystod y cyfnod nesaf. Gyda linc llawer mwy amlwg i'r strategaeth gynnwys, bydd mwyafrif prosiectau partneriaeth y cyfnod nesaf gyda chyswllt penodol neu noddwr corfforaethol o fewn yr adran gynnwys.

Y bwriad yw blaenoriaethu a chanolbwyntio ar nifer lai o bartneriaethau gyda'r nod o gyflawni un cynllun gydag ardrawiad ym mhob cyfnod. Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth hon, bydd S4C yn cael ei gweld gyda rôl hanfodol yng Nghymru, fel partner arloesol.

**Yr Adolygiad**
Argymhelliad 3 yr adolygiad oedd y 'dylai S4C sefydlu partneriaeth iaith gyda Llywodraeth Cymru ac eraill er mwyn helpu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.' Cytunodd DCMS 'bod gan S4C rôl hanfodol o ran adlewyrchu diwylliant a chymdeithas Cymru a hybu'r iaith' gan awgrymu 'canolbwyntio ar feysydd ble ceir cyswllt datganoli clir, fel addysg' os yn sefydlu partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r adolygydd yn awgrymu y dylid sefydlu'r bartneriaeth erbyn diwedd 2018.'

Tra bod pwynt sylfaenol o ran annibyniaeth darlledwr cyhoeddus a chyflawni polisi llywodraeth, fel yr unig sianel deledu Gymraeg a'r platfform sy'n gyfrifol am gomisiynu'r nifer uchaf o oriau o gynnwys yn yr iaith, rydym yn cytuno bod gan S4C le arbennig iawn o ran sicrhau dyfodol y Gymraeg fel iaith hyfyw. Rydym eisoes wedi blaenoriaethu yr iaith fel prif thema gwaith partneriaethau'r sianel dros y cyfnod nesaf. Rydym yn trafod a gweithredu gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn y maes i sicrhau bod y Gymraeg yn weledol ac yn cael ei defnyddio o fewn ein cymdeithas. Byddwn yn cyhoeddi manylion llawnach am y bartneriaeth hon erbyn diwedd 2018.

Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg sy'n fforwm rheolaidd i dynnu'r mudiadau y mae yn eu hariannu at ei gilydd, gydag S4C a Radio Cymru hefyd yn cael mynychu. Dyma'r fforwm naturiol i waith partneriaeth iaith S4C.


Y bwriad yw cyfarfod nifer o’r sefydliadau y byddwn yn cydweithio gyda nhw ar wahân hefyd i ddatblygu a gweithredu cynlluniau pendant dan y themâu blaenoriaeth isod.

Er nad yn argymhellion ffurfiol, mae’r adolygiad hefyd yn awgrymu y dylai S4C gyd-weithio gyda’r darlledwyr lleiafrifol eraill, i gefnogi’r diwydiannau creadigol yng Nghymru a chydweithio gyda TAC. Mae’r strategaeth hon hefyd yn cwmpasu’r ffrydiau gwaith hyn sydd yn cael eu cyflawni gan dimoedd ar draws S4C.

**Egwyddorion**
Mae egwyddorion y strategaeth newydd hon yn syml.

- Byddwn yn cyd-weithio lle mae buddiannau a deilliannau mesuradwy i S4C a’r partner/iaid.
- Cynnwys yw’r ystyriaeth drosgynnol gyda’r iaith yn brif bwnc wedyn.
- Mae tair thema blaenoriaeth yn dilyn – dysgwyr, addysg a phlant a phobl ifanc.
- Rhaid i bob partneriaeth neu brosiect partneriaeth gefnogi strategaeth S4C a bod yn berthnasol i o leiaf un o’r prif flaenoriaethau hyn.
- Bydd addysg a dysgwyr yn cael blaenoriaeth yng nghyfnod cyntaf y strategaeth gyda’r nod o ddatblygu cynlluniau mwy ffurfiol i blant a phobl ifanc o 2019 ymlaen.
- Ni fydd cyllideb benodol ar gael i bob partneriaeth neu brosiect fel mater o drefn. Os bydd achos busnes arbennig yn golygu y bydd angen cefnogaeth ariannol i wireddu cynllun, yna bydd modd gwneud cais am gyllideb ychwanegol gan y Prif Weithredwr.

**Y Themâu**




Mae’r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd gydag amcanion nifer o’r partneriaid sydd yn gweithio ym maes yr iaith yng Nghymru. Maent hefyd yn cyd-fynd gyda nodau strategaeth miliwn o siaradwyr Llywodraeth Cymru. Drwy ganolbwyntio ar y meysydd yma, mae posibiliadau amlwg iawn o ran cydweithio gyda sefydliadau eraill i gyflawni amcanion fydd yn cael gwir effaith a chanlyniad. Bydd y themâu blaenoriaeth yma yn arwain ein gwaith gyda’n partneriaid presennol.

O bryd i’w gilydd, bydd cyfleoedd eraill yn codi naill ai drwy un o’r partneriaid rydym eisoes wedi gweithio gyda nhw neu drwy sefydliadau eraill yng Nghymru. Nid ydym am hepgor y rheiny.

Byddwn yn gwerthuso'r rhain fel achosion unigol drwy feini prawf penodol sy'n cynnwys y strategaeth gynnwys cyn penderfynu a fyddwn yn gallu ymrwymo ai peidio.

Mae'r amcanion penodol a'r themâu unigol hyn wedi eu datblygu yn dilyn trafodaethau am feysydd cydweithio gyda'n darpar bartneriaid.

**Amcanion Strategol lefel uchel/drosgynnol**

- Denu cynulleidfaoedd newydd i'n gwasanaethau.
- Cyflawni buddiannau i'r Gymraeg a'r rhai sy'n ei siarad a'i dysgu.
- Dangos bod S4C yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio, mwynhau a chlywed y Gymraeg ar ystod o lwyfannau.
- Cadarnhau lle S4C fel partner da gyda rôl greiddiol ym mywydau cynulleidfaoedd Cymru.

**Dysgwyr**

Mae cefnogi ac ymgysylltu gyda dysgwyr o bob lefel yn greiddiol i'r strategaeth hon. Rydym am i S4C gael ei gweld fel y cartref naturiol i gynnwys Cymraeg ar bob lefel o rugldér.

*Amcan 1: datblygu partneriaeth tymor hir gyda'r Ganolfan Gymraeg i Oedolion erbyn haf 2018 i hysbysu a chynghori gwasanaeth newydd dysgwyr fydd ar y sgrin o Ionawr 2019 ymlaen. Caiff cynnwys S4C ei weld fel adnodd hanfodol wrth i ddysgwyr feithrin eu sgiliau iaith ac edrych am gyfleoedd i glywed a defnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn tyfu cynulleidfa newydd i S4C ac yn cynnig cynnwys addas iddynt fydd yn hygyrch i bawb.*

Mae'r thema blaenoriaeth yma yn benodol yn cefnogi cynnwys wrth inni ail-ddatblygu ein darpariaeth a'r rhaglenni i ddysgwyr sy'n oedolion fydd ar y sgrin o 2019 ymlaen. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn adeiladu ar bartneriaeth sydd wedi datblygu gyda'r Ganolfan Gymraeg i Oedolion. Hyd yma rydym wedi gweld llwyddiant wrth i wersi gael eu trefnu o gwmpas cynnwys S4C fel *Y Gwyll*, *Ffit Cymru* ac *Un Bore Mercher*. Byddwn yn ffurfioli'r bartneriaeth gyda'r Ganolfan erbyn haf 2018 ac mae'r Ganolfan yn hysbysu a chynghori ein gwasanaeth newydd i ddysgwyr fydd ar yr awyr 2019 ymlaen. Mae'r bartneriaeth yn cynnig arbenigedd i ni o ran gofynion ac anghenion dysgwyr ac yn sicrhau ein bod yn gallu teilwra a phecynnu cynnwys sy'n addas i'r dysgwyr. Mae cyfleodd o ran hyrwyddo a rhannu gwybodaeth hefyd.

Mae'r gwaith gyda dysgwyr hefyd yn cyffwrdd ar un o'r blaenoriaethau eraill sef plant a phobl ifanc.

*Amcan 2: cydweithio gyda Mudiad Meithrin ar gynllun Clwb Cwtsh i roi mynediad i gynnwys S4C i ddysgwyr gyda phlant, neu sy'n gofalu am, blant oed Cyw a hŷn. Byddwn yn ffurfioli'r gefnogaeth erbyn diwedd Awst 2018.*

Rydym hefyd yn cyd-weithio gyda Mudiad Meithrin ar eu cynllun Clwb Cwtsh (mewn cydweithrediad gyda'r Ganolfan.) Buom yn bartneriaid yn rhan gyntaf y cynllun sy'n annog gofalwyr plant nad ydynt yn siarad Cymraeg o gwbl i ddechrau dysgu'r iaith mewn sesiynau wyth wythnos gyda'r Mudiad yn cynnig adloniant i'r gofalwyr (rhieni, rhai sy'n gweithio gyda phlant ac yn aelodau eraill o'r teulu sy'n gofalu) fel nad oes rhwystr mynd i'r gwersi.
Y nod wedyn ydi bydd y dysgwyr yn trosglwyddo i ddarpariaeth arall gan y Ganolfan. Ail-ddarlledodd S4C raglenni oedd yn cefnogi themâu wythnosol Clwb Cwtsh 1 (gwanwyn 2018) yn ystod slotiau Cyw. Rydym yn trafod cefnogaeth mwy dwys i Clwb Cwtsh 2 a 3 gaiff eu cynnal yn hydref 2018 ac o Ionawr 2019.

Comisiynydd perthnasol: Sioned Wyn Roberts.
Cefnogaeth: amserlennu, cyfreithiol a phartneriaethau.

**Addysg**
Mae galw am ddefnyddio cynnwys S4C yn y dosbarth a nifer o ymdrechion wedi bod dros y blynyddoedd i drefnu systemau effeithiol i drefnu hyn wrth i'r amgylchedd dysgu ddatblygu. Rydym wedi llwyddo i ddatblygu partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg lle mae cynnwys S4C ar gael ar lwyfan caeedig i'r myfyrwyr. Rydym hefyd wedi sicrhau partneriaethau gyda llwyfannau i ddosbarthu neu rannu cynnwys e.e. yr ERA a Clickview. Ond rydym am gyflawni mwy.

*Amcan 3: gwneud cynnwys S4C (newydd ac archif) ar gael ar y llwyfannau perthnasol i gefnogi dysgu ar hyd y continwwm addysg erbyn lansiad y cwricwlwm newydd yn 2020/1. Byddwn yn sicrhau bod arbenigwyr addysg yn ein cynghori ar ein cynnwys ac yn gweithio gyda phartneriaid - gan gynnwys Llywodraeth Cymru, CBAC, y Coleg Cymraeg, y sector gynhyrchu, rhwydweithiau athrawon ac ysgolion, platfformau dosbarthu gwahanol a phartneriaid cynnwys – wrth i adnoddau gael eu datblygu.*

*Amcan 4:*
*Cynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau Cyw a chynnwys plant S4C mewn ysgolion cynradd – gan gynnwys mewn ysgolion lle mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu fel ail iaith. Cefnogi athrawon i ddefnyddio'r adnoddau a meithrin hyder yn eu sgiliau Cymraeg. Erbyn lansiad y cwricwlwm newydd.*

Byddwn yn datblygu cynllun gwaith ar gyfer yr amcan hwn, fydd yn deillio o werthusiad cynllun peilot sydd yn cael ei redeg gydag ysgolion arloesi yn ardal y Barri a'r Fro eleni. Mae athrawon yn ein cynghori ar yr adnoddau fydd eu hangen iddynt ddefnyddio cyfres hanes wedi ei ffilmio yn Sain Ffagan mewn gwersi. Byddwn hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Amgueddfa Genedlaethol ar y gyfres hon.

Mae gweithio gydag ysgolion ble mae'r Gymraeg yn ail iaith yn gyfle i gefnogi siaradwyr newydd a chynulleidfa'r dyfodol. Mae hefyd yn cyd-fynd gydag amcanion Strategaeth 2050 o gynyddu siaradwyr Cymraeg. Ar yr un pryd, bydd sicrhau rhwydweithiau a chysylltiadau gwell gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dal i fod yn flaenoriaeth. Mae *Dysgu Gyda Cyw* yn awr wythnosol sy'n addas i'w dangos mewn ysgolion a meithrinfeydd er enghraifft.

Comisiynydd perthnasol: Sioned Wyn Roberts
Cefnogaeth: yr adran gyfreithiol a'r llyfrgell/cynnwys ac archif, cyfathrebu a marchnata, partneriaethau.

**Plant a phobl ifanc**
Un o wasanaethau mwyaf poblogaidd S4C yw *Cyw*. Mae'r brand yn greiddiol i'n gwaith gydol y flwyddyn gyda nifer o'n partneriaid gan gynnwys Yr Urdd, Mudiad Meithrin a'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae partneriaethau fel Into Film, Bardd Plant Cymru a'n gwaith gyda'r Mentrau Iaith ar *Fideo Fi* yn cynnig cyfleoedd inni ddod â chynnwys S4C a'r brand *Stwnsh* i sylw plant hŷn. Mae cyrraedd pobl ifanc yn anodd iawn i bob darlledwr cyhoeddus ond mae tystiolaeth gref bod ein brand Hansh yn cyrraedd y grŵp targed yma ac yn cynnig cyfle iddynt ddefnyddio a chlywed yr iaith.

Bydd plant a phobl ifanc yn hanfodol wrth inni ddatblygu cynulleidfa'r dyfodol a chefnogi siaradwyr Cymraeg. Ein nod yn ail flwyddyn y strategaeth fydd datblygu cynllun i gefnogi ein cyswllt gyda'r grwpiau hyn ac i rannu cynnwys e.e. Hansh. O'n sgyrsiau cychwynnol gyda phartneriaid iaith yn y maes, mae'n edrych fel y gallai cerddoriaeth fod yn thema i'r gwaith yma ond byddwn yn sgopio hyn maes o law.

Comisiynydd perthnasol: Sioned Wyn Roberts a Rhodri ap Dyfrig
Cefnogaeth: adran marchnata a chyfathrebu, partneriaethau

**Partneriaethau eraill**
Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad ein partneriaid presennol – a'r cyfle i rannu blaenoriaethau a chynlluniau gwaith yn galluogi'r ddau barti i gael budd. Bydd themâu y strategaeth hon [cynnwys, iaith, dysgwyr, addysg a phlant a phobl ifanc] yn llywio ein gwaith gyda'n partneriaid presennol ac yn gyfle i gyflawni ar brosiectau newydd ar y cyd.

Mae hyfforddiant a datblygu talent wedi bod yn nod wrth gydweithio gyda nifer o'n partneriaid yn ddiweddar e.e. Y Labordy 1 a 2 (Cyngor Celfyddydau a Ffilm Cymru), cynllun awduron newydd (Theatr Genedlaethol ac eraill), datblygu newyddiadurwyr (ITV ar gyfer Hansh), Gŵyl Iris, It's My Shout a Sgiliau ar Gyfer yr Economi Ddigidol (TAC drwy Creative Skillset Cymru). Bydd partnera gyda sefydliadau eraill yn hanfodol wrth barhau i gefnogi sgiliau dros y cyfnod nesaf gan gynnwys Canolfan S4C yr Egin a deisyfiad S4C i wneud mwy yn y gogledd ddwyrain.

Bydd cefnogi partneriaethau sydd yn bwydo i themâu blaenoriaeth y strategaeth hefyd yn gyfle wrth i bencadlys S4C symud i Gaerfyrddin yn hydref 2018. Mae rhwydweithiau fel pwyllgor llywio Canolfan S4C yr Egin a phrosiect LEADER sy'n cael eu rhedeg gan Gyfarwyddwr yr Egin, yn bodoli'n barod ac yn gyfle inni barhau i ddatblygu hyn dros gyfnod y strategaeth hon.

**Cynlluniau Gweithredu a Gwerthuso**
Bydd cynlluniau gweithredu i'r themâu hyn, fydd yn cynnwys targedau penodol a mesuradwy a byddwn yn adrodd yn ôl i fwrdd yr Awdurdod ar y cynnydd. Tîm bach sydd ac nid oes adnoddau enfawr. Y bwriad yw gweithio yn gydweithredol ar draws S4C i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn digwydd o ran y cynnwys, gan gynnig cyfleoedd ychwanegol i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd tra'n cefnogi'r blaenoriaethau iaith.

**Ffrydiau Gwaith Eraill Perthnasol i Awgrymiadau'r Adolygiad**

**TAC**
Derbyniodd Llywodraeth y DU awgrym yr adolygiad y dylai S4C a TAC (fel corff cynrychioliadol y sector cynhyrchu teledu yng Nghymru) gymryd camau i adennill ffydd y cynhyrchwyr llai ac ailsefydlu rôl TAC fel brocer effeithiol rhwng S4C a chymuned gynhyrchu Cymru. Byddwn yn cydweithio'n agos gyda TAC a'u cynorthwyo i gefnogi'r sector sy'n cynhyrchu inni drwy ddarparu ystod o wasanaethau a chyfleoedd hyfforddiant i gwmnïau o bob maint.

**Diwydiannau Creadigol Cymreig**
Cytunodd Llywodraeth y DU gydag awgrym yr adolygiad y dylai S4C edrych ar y ffyrdd y gall gefnogi diwydiannau creadigol Cymru yn ehangach. Rydym yn cytuno bod lle creiddiol gan S4C yn hyn o beth ac eisoes yn edrych am gyfleoedd. Rydym yn rhagweithiol yn ymwneud â fforymau a grwpiau sy'n bodoli yn barod e.e. Gogledd Creadigol, Sir Gâr Greadigol, Caerdydd Greadigol a What Next?

Rydym yn ymwneud gyda sefydliadau perthnasol ehangach e.e. y CBI o ran adnabod polisi, cyfleoedd, cysylltiadau ac arfer gorau.

Mae S4C yn sbardun i ddatblygiad y diwydiannau creadigol yn ardal Caerfyrddin gyda'r pencadlys newydd, Canolfan S4C yr Egin, ac mae sicrhau llwyddiant hyn dros gyfnod y strategaeth hon yn flaenoriaeth. Mae datblygu cynlluniau i gefnogi twf y diwydiannau creadigol yn y gogledd ddwyrain hefyd yn rhywbeth y mae S4C yn edrych arno. Yn ogystal, rydym yn partnera gyda sefydliadau eraill i geisio denu arian i gefnogi datblygiad y diwydiannau creadigol yng Nghymru e.e.: rhaglen £80m Clystyrau Diwydiannau Creadigol (Creative Industries Clusters Programme (CICP) yr Arts and Humanities Research Council (AHRC) yn gronfa wedi ei hariannu gan Gronfa Her y Strategaeth Ddiwydiannol (Industrial Strategy Challenge Fund (ICSF) Llywodraeth y DU.

Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu i gwmpasu a gweithredu hyn erbyn hydref 2018 ac yn diweddaru DCMS.

**Darlledwyr llai eraill**
Roedd awgrym yn yr adolygiad y dylai S4C wella ei pherthnasoedd â darlledwyr ieithoedd lleiafrifol eraill - gyda chyfeiriad at y darlledwyr Celtaidd yn benodol - i rannu gwybodaeth ac arferion gorau ac edrych ar gyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd. Mae cyswllt a chydweithio wedi bod gyda TG4 ac MG a BBC Alba ers nifer o flynyddoedd. Dros y blynyddoedd diwethaf arweiniodd hyn at *Celtic Formats* y bu S4C yn flaengar yn ei ddatblygu, sydd wedi rhoi cynnwys llwyddiannus fel *Galw Nain, Nain, Nain* inni. Yn 2017, comisiynwyd cyfresi *Llanw* (S4C, TG4, Alba, BBC NI a LIC China) ac *Y Wal* (S4C, TG4 a JTV).

Yn ddiweddar, mae'r adran gynnwys wedi bod yn parhau i ddyfnhau y cydweithio hyn- yn enwedig wrth fynd â chynnwys, fformatau a chyfleoedd cyd-gomisiynu yn rhyngwladol. Mae gwledydd y Llychlyn wedi cyd-weithio fel hyn yn llwyddiannus ers rhai blynyddoedd. Bydd S4C, gyda'r partneriaid Celtaidd, yn peilota presenoldeb ar y cyd yng ngŵyl Sunnyside of the Doc yn La Rochelle dan faner Celtic Connect sydd wedi ei datblygu drwy'r ŵyl gyfryngau Geltaidd.

Byddwn yn asesu'r peilot ac yn datblygu cynllun gweithredu gyda TG4 ac Alba. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gydag ystod o ddarlledwyr rhyngwladol e.e. JTV yn Ne Corea (MoU S4C/JTV mewn lle ers 2014 ac wedi ei adnewyddu yn flynyddol), a chynhyrchwyr fel LIC yn China, ble mae S4C, TG4 a BBC Alba yn cyd-weithio ar gyfres Llanw. Datblygodd hyn drwy adeiladu ar berthynas i S4C ei meithrin a'i rhannu gyda'r darlledwyr Celtaidd eraill. Ar yr un pryd, rydym yn ymdrechu i barhau i gydweithio gyda'r darlledwyr cyhoeddus mwy yn y DU.

Mehefin 2018

Atodiad C

**Strategaeth Fasnachol S4C (Gorffennaf 2018)**

Mae'r papur hwn yn cyflwyno Strategaeth Fasnachol wedi'i hadnewyddu ar gyfer SDML (S4C Digital Media Limited).

Bydd tri maes yn ffocws i'r blaenoriaethau trosgynnol:

1. Strategaeth Gyffredinol S4C
2. Blaenoriaethau Masnachol a Buddsoddi
3. Newidiadau i Lywodraethiant

Byddwn yn trafod pob un yn ei dro.

**1. Strategaeth Gyffredinol S4C**

Mae buddsoddi ar sail portffolio cyffredinol wedi derbyn cefnogaeth eang, ond mae angen mireinio rhywfaint ar ei strwythur a'i weithrediad. Ar hyn o bryd, deellir ar lefel uchel fod y portffolio wedi ei daenu ar draws amrywiaeth o broffiliau risg. Dyma oedd sylfaen y 'portffolio cytbwys'. Er mwyn symleiddio'r sefyllfa, rhennir y portffolio yn gategorïau risg isel, canolig ac uchel. Er nad oes unrhyw fodel cywir, mabwysiedir cyfuniad o broffiliau risg i sicrhau bod cydbwysedd rhwng buddsoddiad risg isel lle y mae'r enillion yn gymharol isel, a buddsoddiadau ar lefelau eraill a fedrai sicrhau gwell enillion er bod y proffil risg, efallai, yn uwch. Nodir y portffolio fel categorïau risg isel, canolig ac uchel a defnyddir y diffiniadau canlynol:

*Risg isel* – sicrwydd uchel o gadw'r cyfan, neu bron iawn y cyfan, o'r gwerth cyfalaf, ac mae'r enillion yn debygol o fod yn gadarnhaol er yn gyfyngedig neu wedi eu gwarchod yn erbyn unrhyw risgiau allanol posibl.

*Risg ganolig* – ychydig mwy o ansicrwydd ynghylch cadw'r cyfalaf llawn, er bod y disgwyliadau ar gyfer ei gadw yn dda. Nid oes darpariaeth ar gyfer gwarchod yn erbyn unrhyw sioc allanol.

*Risg uchel* – gwir bosibilrwydd o golli cyfalaf (uchafswm o 50%) ond potensial ar gyfer enillion uchel neu fanteision sylweddol eraill i amcanion craidd S4C. (>10%).

Mae unrhyw fuddsoddiadau wedi eu cysylltu ag enillion refeniw neu gyfalaf yn hytrach na gweithgareddau sy'n gysylltiedig â brand yn unig.

Mae diffinio'r cyfuniad rhwng yr amrywiol gategorïau yn gymharol oddrychol, ond ymddengys bod 40:40:20 yn fan cychwyn synhwyrol a chaniatáu (+/-10%) ar gyfer pob categori.

**2. Blaenoriaethau Masnachol a Buddsoddi**

Yn gyntaf, mae'n werth nodi unwaith eto y dylai dibenion y gronfa Fasnachol fod fel a ganlyn:

- Yn anad dim, creu'r amgylchedd er mwyn i ddifidendau positif fedru cefnogi gweithgareddau S4C, y cyfranddaliwr.

- Cefnogi nodau strategol y sianel lle y bo hynny'n bosibl.

Wrth edrych ar y cyfuniad o fuddsoddiadau, mae cyfansoddiad y buddsoddiadau isel i ganolig yn gymharol glir o ran y cyfuniad presennol o fuddsoddiadau o fath Sarasin, ond byddent yn cael eu hehangu i gynnwys prynu tir neu asedau cyfalaf lle y byddai'r risg o golled yn isel a'r enillion posibl yn eithaf cymedrol ond yn real.

Fel arfer, byddai'r mathau hyn o fuddsoddiadau yn golygu bod asiantau rheoli arbenigol yn goruchwylio'r buddsoddiadau. Gwaith y Bwrdd Masnachol fyddai monitro enillion, sicrhau y cynllunnir yn ddigonol ar gyfer y dyfodol i reoli unrhyw newidiadau yn nisgwyliadau cyffredinol y farchnad ac yna adrodd gerbron yr Awdurdod/Bwrdd Unedol ar berfformiad. Yn syml, nod craidd y buddsoddiadau hyn fyddai twf cyfalaf a/neu enillion refeniw.

Byddai'r buddsoddiadau â phroffil risg uwch yn cael eu trafod yn wahanol. O hyn ymlaen, bydd strategaeth fasnachol S4C yn caniatáu buddsoddiadau mewn cwmnïau cynhyrchu a chwmnïau sy'n gysylltiedig â chadwyn gyflenwi S4C neu â'r potensial o fod yn gysylltiedig.

Amlygodd y dystiolaeth a gasglwyd y buddion a'r enillion yr oedd Channel 4, ITV ac yn fwy diweddar Sky, Netflix ac ati, yn benodol, wedi eu cael o integreiddio fertigol. Yn y dyfodol, bydd S4C yn barod i fuddsoddi mewn cwmnïau o'r categorïau isod sydd â photensial amlwg i dyfu eu busnes ledled y Deyrnas Unedig ac yn ehangach os yn bosibl.

Dyma'r categorïau hynny:

- Cynhyrchu Teledu
- Adnoddau
- Cynnwys Digidol/Cyfryngau

Mae'r rhain yn feysydd y mae gan S4C arbenigedd ynddynt. Yn ôl yr angen, ychwanegir at yr arbenigedd hwn o ffynonellau allanol, er enghraifft wrth ddatblygu ein fersiwn ein hunain o gronfa *Channel 4 Growth Fund* fel model cyllido, petai hynny'n digwydd.

Bydd angen canllawiau clir ar wahanu gweithgarwch masnachol S4C oddi wrth ei phrosesau comisiynu yn y cyswllt hwn. Serch hynny, nid yw hyn yn rhywbeth newydd, ac mae yna drefniadau anffurfiol eisoes ar waith ar gyfer cyflenwyr posibl yr ydym wedi buddsoddi ynddynt, er enghraifft Wild Seed a Parade Media. Gydag amser, bydd arnom angen ffurfioli'r gweithdrefnau hyn.

Dylem ddysgu gwersi gan fuddsoddiadau diweddar ac osgoi buddsoddiadau mewn busnesau sy'n cychwyn o'r newydd lle nad yw'r personél dan sylw yn dangos hanes cadarn o lwyddo.

Yr ystyriaeth arall yw'r elfen o reolaeth y byddai SDML eisiau ei chymryd mewn unrhyw fuddsoddiad. Er enghraifft, dechreuodd Channel 4 gyda chyfyngiad o 30% o ecwiti neu gyfranddaliad yn ei buddsoddiadau. Erbyn hyn, mae Channel 4 a Sky wedi mabwysiadu dull mwy strategol wrth gymryd siâr sy’n rhoi rheolaeth iddynt yn eu buddsoddiadau o 51% neu fwy.

Gosoda'r strategaeth hon derfyn o 30% ar fuddsoddiadau S4C, i'w adolygu yn ôl yr angen. O ran buddsoddiadau mewn cwmnïau â risg uwch, byddem yn gofyn am wasanaethau uwch-fentoriaid er mwyn datblygu'r dalent sy'n gysylltiedig.

O ran unrhyw fuddsoddiad, byddai arnom angen gweld strategaeth ymadael ac awgrym o'r disgwyliadau o ran twf ecwiti neu refeniw.

Yn olaf, nodir y bydd arnom angen sicrhau bod cryn feddwl ynghylch brandio'r gweithgareddau newydd. Deellir bod *Channel 4 Growth Fund* a *Sky Distribution* wedi eu gwahanu oddi wrth eu rhiant-gwmni a bydd arnom angen ymdrechu i sicrhau y deellir yr ymraniad rhwng gweithgareddau cyhoeddus S4C a'n gweithgareddau masnachol yn yr un ffordd, o ystyried ein profiadau diweddar gyda rhan-ddeiliaid.

**Gwerthu Amser Awyr Masnachol**

Ar hyn o bryd, dosberthir mwyafrif helaeth gofod hysbysebu S4C trwy'r cytundeb sydd wedi'i ddyrannu'n allanol i Sky, ac mae hwn yn agos at y cyfnod ail-dendro. Fodd bynnag, mae'n glir y bydd angen dod i benderfyniadau ynghylch y posibiliadau ar gyfer gyrru twf refeniw o hysbysebion digidol trwy wasanaethau digidol S4C. Bydd hyn yn destun gwaith manwl pellach.

**3. Newidiadau i Lywodraethiant**

Mae yna dair elfen i'w trafod o ran trefniadau llywodraethiant yn y dyfodol.

Mae'r elfennau hynny fel a ganlyn:

- Sut caiff syniadau eu cyflwyno i'r Bwrdd Masnachol
- Y broses benderfynu o ran y Bwrdd Masnachol a'r Awdurdod/Bwrdd Unedol
- Pwerau Disgresiwn y Prif Weithredwr

Byddwn yn trafod pob un yn ei dro.

**Cyflwyno Syniadau**
Adlewyrchir profiad Channel 4GF a sefydlir Panel Buddsoddi mewnol yn hydref 2018. Byddai hwn yn darparu ffocws ar gyfer y gweithgarwch ond hefyd yn sicrhau y caiff cynnydd ei fonitro'n agos y tu hwnt i weithgarwch arferol y Bwrdd Masnachol. Yna, deuir ag unrhyw gynigion gerbron y Bwrdd Masnachol i'w hystyried, law yn llaw gyda chyngor trydydd parti annibynnol.

**Proses Benderfynu a Monitro**
Unwaith iddo gael cadarnhad a chefnogaeth y Bwrdd Masnachol, yr Awdurdod/Bwrdd Unedol fyddai'n penderfynu a ddylid gwneud y penderfyniad ai peidio. Er y byddai'r Bwrdd Masnachol yn cael diweddiad cryno bob deufis ar berfformiad buddsoddiadau, byddai'r Bwrdd Masnachol, trwy'r Cadeirydd, yn darparu adroddiadau ar gynnydd ddwywaith y flwyddyn i'r Awdurdod/Bwrdd Unedol.

**Pwerau Disgresiwn y Prif Weithredwr**
Ar hyn o bryd, mae gan y Prif Weithredwr y disgresiwn i wario hyd at £250k mewn buddsoddiadau sengl. Bydd y ffigur hwn yn parhau er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol, ond mae yna derfyn ar y swm hwn ar gyfer unrhyw fuddsoddiad neu fuddsoddiadau yn yr un corff. Byddai hyn yn tynnu sylw'r Awdurdod/Bwrdd Unedol at sefyllfa lle y mae buddsoddiadau'n dechrau cynyddu y tu hwnt i'r £250k hwn mewn unrhyw fuddsoddiad sengl.

Owen Evans
2018